# Effaith Covid-19 ar ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yng Nghymru

Ymchwil

Rhif dogfen ymchwil: 072/2023
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2023

# Effaith Covid-19 ar ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yng Nghymru

**Cynulleidfa**

Cyflawnwyd y prosiect hwn fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysgol yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau wedi'u hanelu at lunwyr polisi ac AALlau, sy'n gallu cefnogi ysgolion ac ymarferwyr yn eu gwaith parhaus gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd yng Nghymru.

**Trosolwg**

Profiadau ysgolion ac ymarferwyr yng Nghymru sydd wedi bod yn cefnogi dysgwyr sy'n ffoaduriaid cyn, yn ystod ac ar ôl pandemig Covid-19.

**Cam gweithredu sy'n ofynnol**

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod angen strategaeth gydlynol a dyraniad cyllideb i gefnogi ysgolion ac ymarferwyr yn eu gwaith gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid. Bydd hyn yn hwyluso cefnogaeth ddigonol i ddysgu iaith, a darparu cwricwla a chymwysterau amgen ar gyfer dysgwyr sy'n ffoaduriaid lle bo angen. Bydd sgrinio gwybodaeth gefndirol am ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yn helpu i ganfod anghenion ychwanegol yn gynnar. Mae angen gwell cyfathrebu hefyd rhwng ysgolion a theuluoedd ffoaduriaid, gan ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu proffesiynol a chynorthwywyr addysgu dwyieithog yn ôl yr angen. Mae hyfforddiant i staff sy'n gweithio gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn flaenoriaeth yn ogystal â hyfforddiant i ddatblygu ymwybyddiaeth amlddiwylliannol ar draws poblogaethau ysgol gyfan.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Dr Sonya Woodward
Ysgol Gwyddorau Addysgol
Prifysgol Bangor
e-bost: S.woodward@bangor.ac.uk

@WG_Education

Facebook/EducationWales

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn cyfeiriad gwefan https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol/rhwydwaith-tystiolaeth-gydweithredol/

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Hawlfraint y Goron 2023 ISBN Digidol 978-1-80535-653-0 WG47261

# Cynnwys


**1. Crynodeb Gweithredol** **4**
**2. Cyflwyniad a Chefndir** **6**
**3. Adolygiad Llenyddiaeth** **8**
**4. Methodoleg** **11**
**5. Cyflwyno a dadansoddi data** **13**
**6. Prif Ganfyddiadau** **14**
**7. Argymhellion** **34**
**Cyfeirnodau** **37**
**Atodiad A – Cwestiynau cyfweliad i athrawon/addysgwyr** **39**
**Atodiad B – Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr** **41**
**Atodiad C – Ffurflen Ganiatâd Cyfranogwr** **44**

# 1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar sut mae sampl o ysgolion ac athrawon yng Nghymru wedi gweithio i gefnogi dysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd yn ystod y pandemig ac yn ystod y cyfnod adfer ar ôl y pandemig. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda sampl fechan o benaethiaid, athrawon dosbarth, arbenigwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL), a chynorthwywyr addysgu dwyieithog, sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â Gwasanaethau Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, yng Ngwynedd, Ynys Môn, Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd. Er gwaethaf cyfyngiadau maint y sampl, roedd y cyfweliadau a gafwyd yn darparu cyfoeth o ddata yn ymwneud â phrofiadau bob dydd ymarferwyr yn eu gwaith gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid ledled Cymru.

Mae dadansoddiad o'r data cyfweliadau hwn yn rhoi cipolwg ar y strategaethau a ddefnyddiwyd i gefnogi dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn ystod y pandemig yn ogystal â rhai o'r anawsterau y mae teuluoedd sy'n ffoaduriaid yn eu hwynebu. Mae hefyd yn awgrymu argymhellion ar gyfer agweddau ar ddarpariaeth a gwasanaethau addysg y mae angen eu gwella er mwyn hyrwyddo cynhwysiant a thegwch mewn addysg i ddysgwyr agored i niwed yn ystod y cyfnod adfer ar ôl y pandemig. Mae'r prif ganfyddiadau ac argymhellion wedi'u nodi isod.

Dyma'r prif ganfyddiadau:

- Darparwyd cymorth dwys, mewn dosbarthiadau bach mewn ysgolion drwy gydol y pandemig i grwpiau o ddysgwyr agored i niwed, gan gynnwys dysgwyr sy'n ffoaduriaid. Er na chafodd y ddarpariaeth hon ei defnyddio'n llawn yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, roedd llawer o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid wedi dod i'r ysgol yn rheolaidd ac roeddent yn gallu elwa o gefnogaeth ddwys i gynnal dysgu, datblygu sgiliau iaith, a dal i fyny ag addysg a gollwyd cyn iddynt gyrraedd Cymru.
- Roedd llawer o deuluoedd ffoaduriaid yn anghyfarwydd â'r defnydd o dechnolegau digidol a deunyddiau addysgol ar-lein, felly nid oeddent mewn sefyllfa dda i helpu eu plant i gael gafael ar wersi ac adnoddau gartref yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd hyn yn aml yn cael ei waethygu gan ddiffyg seilwaith digonol mewn cartrefi fel lle ffisegol i ddysgwyr weithio ynddo, mynediad at galedwedd TG, a darpariaeth rhyngrwyd dda.
- Roedd diffyg Saesneg ar yr aelwyd yn golygu bod dysgu iaith ar gyfer rhai dysgwyr sy'n ffoaduriaid wedi dod i ben i bob pwrpas yn ystod y cyfyngiadau symud ac nad oedd dysgwyr yn gallu cael cymorth digonol i gwblhau tasgau ac aseiniadau a osodwyd ar-lein.
- Cafodd bylchau mewn addysg o ganlyniad i fudo gorfodol a chyfnodau o fyw mewn gwersylloedd ffoaduriaid eu gwaethygu yn ystod y cyfyngiadau symud wrth i gyfleoedd dysgu ac addysgu pellach gael eu colli. Mae rhai dysgwyr sy'n ffoaduriaid mewn sefyllfa arbennig o anodd os ydynt wedi cyrraedd Cymru mewn oedran uwchradd, yn gorfod dysgu Saesneg yn gyflym ac addasu i gwricwlwm TGAU os ydynt am symud ymlaen i Addysg Uwch neu Addysg Bellach.
- Cafodd ysgolion anawsterau wrth gyfleu gwybodaeth bwysig i deuluoedd ffoaduriaid yn ystod y pandemig, gan gynnwys rheolau sylfaenol y llywodraeth ynghylch cadw'n ddiogel. Mae diffyg gwasanaethau cyfieithu neu gyfieithwyr yn golygu y gellir cyflogi ffrindiau, myfyrwyr neu gynorthwywyr addysgu dwyieithog i drosglwyddo negeseuon allweddol i rieni.
- Roedd arwahanrwydd cymdeithasol yn amlwg ymysg y teuluoedd hynny o ffoaduriaid a oedd newydd gyrraedd Cymru ac nad oedd ganddynt gefnogaeth rhwydwaith o ffrindiau lleol yn ystod y pandemig. I lawer o deuluoedd ffoaduriaid, yr ysgol yw eu prif gyswllt â'r

gymuned leol, ac mae cau ysgolion yn ei gwneud yn anoddach integreiddio neu sefydlu cysylltiadau.

- Yn aml, mae angen amser ychwanegol ar ddysgwyr sy'n ffoaduriaid i ddatblygu sgiliau iaith ac ennill yr hyder i ddilyn pynciau academaidd neu alwedigaethol arbenigol. Mae llawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn, ond dengys ymchwil ei bod yn cymryd llawer mwy o amser i rai dysgwyr sy'n ffoaduriaid ddatblygu sgiliau iaith. Efallai fod y pandemig wedi ymestyn yr amser hwn i rai dysgwyr.
- Yn aml, ychydig o gefnogaeth sydd gan deuluoedd sy'n ffoaduriaid i gael gafael ar wybodaeth allweddol am y system addysg yn y DU, gan gynnwys yr ystod o gymwysterau yn y dyfodol ac opsiynau gyrfa i ddysgwyr hŷn, yn ogystal â chyfleusterau addysgol sydd ar gael i ddysgwyr iau. Mae angen cefnogaeth ar deuluoedd sy'n ffoaduriaid i wneud dewisiadau gwybodus.

Roedd yr argymhellion a wnaed gan ysgolion ac athrawon fel a ganlyn:

- Dylid sgrinio ac adnabod anghenion ychwanegol yn well pan fydd teuluoedd ffoaduriaid yn cyrraedd Cymru am y tro cyntaf, a hynny gan athrawon a gweithwyr cefnogi, gyda chymorth cynorthwywyr dwyieithog, i gael gwybodaeth gefndir am lythrennedd teuluol a lefelau sgiliau sylfaenol unigol. Bydd hyn yn galluogi ysgolion ac athrawon i wneud yr addasiadau angenrheidiol ar gyfer diwallu anghenion addysgol dysgwyr sy'n ffoaduriaid.
- Mwy o gymorth addysgu dwyieithog i alluogi dysgwyr sy'n ffoaduriaid i ymgartrefu yn amgylchedd newydd yr ysgol, gwneud ffrindiau, a defnyddio'r cwricwlwm.
- Cymwysterau a chwricwla amgen wedi'u teilwra, sy'n caniatáu i ddysgwyr sy'n ffoaduriaid lwyddo tra'n parhau i ddatblygu sgiliau sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau ESOL ar lefel briodol i alluogi dysgwyr i barhau ar lwybrau galwedigaethol ac academaidd ôl-16 yn y coleg.
- Mwy o ddarpariaeth dysgu Saesneg a digon o amser wedi'i neilltuo i ddysgwyr sy'n ffoaduriaid ddatblygu sgiliau iaith digonol cyn y disgwylir iddynt ymuno â gwersi pwnc.
- Dylai cydlynu darpariaeth EAL fod yn rôl ar wahân i gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Monitro canlyniadau addysgol ar gyfer dysgwyr sy'n ffoaduriaid, i fesur pa mor dda y mae dyheadau ac anghenion y grŵp hwn yn cael eu diwallu.
- Cyfathrebu'n well â dysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd i gefnogi dysgwyr i addasu i system addysg y DU a gwneud dewisiadau gwybodus am ddewisiadau gyrfa yn y dyfodol. Gall ysgolion, athrawon a chynorthwywyr dwyieithog gydweithio i hwyluso hyn, ond dylid ei ystyried yn rhan allweddol o integreiddio dysgwyr sy'n ffoaduriaid.
- Gwasanaethau cyfieithu mwy proffesiynol i sicrhau bod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys llywodraeth genedlaethol ac ysgolion a cholegau unigol ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd y cartref ac mewn fformatau hygyrch. Ni all ffrindiau ac aelodau o'r teulu fod yn llwyr gyfrifol am gyfleu gwybodaeth bwysig.
- Cysylltiadau agosach gyda swyddogion adsefydlu lleol a mudiadau cymunedol eraill sy'n cynnig cefnogaeth arbenigol a chyfleoedd i ail-sefydlu teuluoedd yng Nghymru.
- Mwy o gefnogaeth emosiynol a bugeiliol mewn ysgolion, gan gynnwys i siaradwyr ieithoedd eraill. Hyfforddiant i staff ar yr heriau unigryw a chymhleth y gallai dysgwyr sy'n ffoaduriaid eu hwynebu a ffyrdd o adnabod arwyddion o drawma, i helpu staff i ddatblygu sgiliau ar gyfer delio â'r sefyllfaoedd hyn.
- Hyfforddiant a mwy o ymwybyddiaeth ddiwylliannol i alluogi staff a dysgwyr eraill i ddod yn fwy cyfarwydd â materion byd-eang ac amrywiaeth.

# 2. Cyflwyniad a Chefndir

## Cyfyngiadau symud Covid yng Nghymru

O 20fed Mawrth 2020 ymlaen, cafodd ysgolion yng Nghymru eu cau i bob dysgwr ar wahân i blant agored i niwed neu blant gweithwyr allweddol. Roedd y cyfyngiadau symud wedi para tan ddiwedd mis Mehefin pan gafodd pob grŵp blwyddyn ei annog i ddychwelyd, er nad oedd presenoldeb yn orfodol a'i fod yn rhan amser yn bennaf. Ailagorodd pob ysgol yn llawn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2020, gyda mesurau ar waith i sicrhau cadw pellter cymdeithasol. Oherwydd y nifer cynyddol o heintiau ledled y DU, roedd rhai ysgolion yng Nghymru wedi cael "cyfnodau atal byr" yn ystod hanner tymor yr Hydref ac wedi cau'n gynnar cyn Nadolig 2020. Cafodd yr ail gyfnod hwn o gyfyngiadau symud oherwydd Covid-19 ei ymestyn i'r flwyddyn newydd, ac aeth ysgolion ar-lein eto am ran helaeth o dymor y Gwanwyn. Cafodd dosbarthiadau oed cynradd eu hannog i ddychwelyd ddiwedd mis Chwefror a dechrau mis Mawrth, ond ni ddychwelodd llawer o ddysgwyr uwchradd tan fis Ebrill 2021. Nid yw effaith cau ysgolion oherwydd Covid-19 ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol ac addysgol plant ond yn dechrau cael ei gwerthfawrogi'n llawn (Werner a Woessmann, 2021), ond mae eisoes yn glir bod llawer o'r effeithiau hyn wedi cael eu profi'n fwy dwys gan y rheini a oedd eisoes mewn sefyllfa fregus, megis ffoaduriaid neu fudwyr.

Roedd teuluoedd a dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn wynebu anawsterau cyffredin yn sgil y pandemig, fel bod yn anghyfarwydd â thechnoleg a defnyddio llwyfannau dysgu ar-lein yn lle gwersi wyneb yn wyneb. Roedd rhai rhieni'n ei chael hi'n anodd cefnogi addysg gartref, ac roedd diffyg mynediad at wasanaethau arbenigol yn ystod y pandemig. Roedd teuluoedd ffoaduriaid yn wynebu heriau ychwanegol fel rhwystrau iaith, diffyg rhwydweithiau cymdeithasol, ac amodau tai annigonol (Primdahl et al., 2021). Er mwyn osgoi ymestyn y gwahaniaethau addysgol presennol, mae angen ategu'r gwaith o ymchwilio ymhellach i effaith cau ysgolion ar ddysgwyr sy'n ffoaduriaid gydag argymhellion i fynd i'r afael ag anghenion penodol y grŵp hwn o ddysgwyr.

Mae ysgolion yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddarparu profiadau dysgu o safon i fyfyrwyr sy'n ffoaduriaid ac, mewn sawl achos, maent yn darparu rhaglen gymorth wedi'i theilwra'n arbennig i helpu'r myfyrwyr hyn i ddatblygu galluoedd a sgiliau hanfodol pan fyddant yn cyrraedd y DU (Tikly, 2016). Mae ar y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid angen lefelau uchel o gefnogaeth iaith (Cymraeg a Saesneg) i'w galluogi i gael mynediad at y cwricwlwm, cyfathrebu ag eraill, cymryd rhan mewn dysgu rhyngweithiol, ac ennill cymwysterau, yn enwedig yn yr ysgol uwchradd. Yn ogystal â'u hanghenion ieithyddol, efallai na fydd llawer o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid wedi cael addysg reolaidd am fisoedd neu flynyddoedd yn ystod eu taith mudo fel y gall fod bylchau sylweddol mewn datblygiad llythrennedd a gwybodaeth am Fathemateg sylfaenol. Mae lefelau presenoldeb ysgol mewn gwersylloedd ffoaduriaid a gwledydd lloches gyntaf yn ysbeidiol ar y gorau ac yn aml yn isel (Sirin a Rogers-Sirin, 2015; Madziva a Thondhlana, 2017)). Felly, efallai y bydd angen i ysgolion yn y DU helpu dysgwyr sy'n ffoaduriaid i ddal i fyny, drwy ddarparu datblygu sgiliau academaidd ychwanegol (RoadstoRefleuge, 2020). Weithiau, nid yw rhieni dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn gallu darparu cymorth addysgol gartref oherwydd eu lefelau llythrennedd a sgiliau eu hunain.

Mae'n cymryd amser i ddysgwyr sy'n ffoaduriaid addasu i fywyd ac addysg yn y DU ac mae gan ysgolion rôl hanfodol yn helpu'r dysgwyr hyn a'u teuluoedd drwy'r broses bontio (Skovdal a Campbell, 2015). Gall sefydlogrwydd a threfn yr ysgol gynnig seibiant rhag

trafferthion domestig, a lle diogel i ddysgwyr sy'n ffoaduriaid setlo a gwneud ffrindiau. Mae ysgolion yn darparu cefnogaeth a lle ffisegol ar gyfer gofal (Primdahl et al., 2021), ac mae datblygu ymdeimlad o gymuned a pherthyn yn arbennig o bwysig i helpu integreiddio. Efallai mai sefydlu perthynas ag athrawon a chyfoedion yn yr ysgol yw rhai o'r cysylltiadau cyntaf a wneir mewn gwlad newydd, ac mae'r pwyslais ar ddatblygu perthnasoedd gofalgar yn arbennig o bwysig i ddysgwyr sy'n ffoaduriaid (Bak, 2016). Mae llawer o deuluoedd sy'n ffoaduriaid wedi dod i mewn drwy gynlluniau'r llywodraeth fel y Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed (VPRS) ac wedi cael eu dewis yn benodol oherwydd eu bod yn agored i niwed o ran iechyd neu addysg. Efallai y bydd gan deuluoedd a dysgwyr sy'n ffoaduriaid anghenion seicogymdeithasol ychwanegol sy'n ymwneud â'u profiadau o golled a dadleoli.

Mae angen penodol i edrych ar sut mae'r grwpiau hyn o ddysgwyr wedi ymdopi mewn addysg yn ystod y pandemig ac ar ei ôl, ac i ystyried pa gymorth pellach y gellid ei ddarparu i oresgyn yr heriau sy'n eu hwynebu a gwella eu cyfleoedd addysgol yng Nghymru.

Yn ystod y pandemig yn 2020 a 2021, roedd tua 3,000 o geiswyr lloches (yn derbyn cymorth o dan adran 95) ledled Cymru. Roeddent wedi'u crynhoi'n helaeth mewn dinasoedd mawr, gydag oddeutu 1,600 yng Nghaerdydd, tua 900 yn Abertawe ac oddeutu 500 yng Nghasnewydd. Nid yw'r ffigurau hyn yn gyflawn, ond maent yn rhoi darlun defnyddiol o ddosbarthiad ceiswyr lloches ledled Cymru.

Nodau ac amcanion yr astudiaeth ymchwil hon oedd:

- Casglu a dadansoddi profiadau sampl bach o ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru yn ystod pandemig Covid-19.
- Cael gwell dealltwriaeth o'r hyfforddiant, yr adnoddau a'r asiantaethau allanol sydd eu hangen mewn ysgolion yng Nghymru i gefnogi lles plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid yn ystod y pandemig ac ar ei ôl.
- Datblygu strategaethau dosbarth/ysgol gyfan i gefnogi addysgu a dysgu plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru.
- Rhannu'r dystiolaeth hon gyda Llywodraeth Cymru, arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cefnogi gyda'r nod o adeiladu ar bolisi a gwella arferion mewn ysgolion.

## 3. Adolygiad Llenyddiaeth

Mae rhai ardaloedd yng Nghymru wedi bod yn cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches ers blynyddoedd lawer, ond mae'r gweithgarwch hwn wedi cynyddu'n sylweddol mewn ymateb i Gynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed y DU a lansiwyd yn 2014 ac a ehangwyd yn 2015 i gynnwys 20,000 o ffoaduriaid oedd yn ffoi rhag y gwrthdaro yn Syria (refugeecouncil.org.uk). Mae pob ardal yng Nghymru wedi ailsefydlu rhai ffoaduriaid dan y cynllun hwn, ac mae eraill wedi cael eu cyflwyno dan gynlluniau nawdd cymunedol. Er nad yw ffigurau cyflawn ar gyfer nifer y ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid sy'n cael eu hailsefydlu yng Nghymru ar gael eto, mae'n hysbys bod cyfanswm o 1,437 o ffoaduriaid wedi cael eu hailsefydlu yng Nghymru o dan y Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed a chynllun Adsefydlu'r DU (Llesiant Cymru, 2022).

Ym mis Awst 2021, cafodd dros 15,000 o ffoaduriaid o Afghanistan, yn dilyn goruchafiaeth y Taliban, eu halltudio ar frys i gael lloches mewn gwahanol rannau o'r DU, ac addawodd cynllun Adsefydlu Dinasyddion Afghanistan gymryd hyd at 20,000 yn y blynyddoedd i ddod. Mae 250 o'r rhain hefyd wedi cael eu hailsefydlu yng Nghymru. Yn fwy diweddar, addawodd Llywodraeth Cymru ddod yn 'uwch-noddwr' ac ymrwymodd i letya hyd at 1,000 o ffoaduriaid o'r rhyfel yn yr Wcráin. Mae llawer mwy na hyn (4,192) hefyd wedi cael llety yng Nghymru drwy gynllun Cartrefi ar gyfer yr Wcráin (Ymchwil y Senedd, 22 Gorffennaf, 2022). Mae'r mewnfudo mawr diweddar hyn yn ychwanegol at y ffoaduriaid sydd hefyd yn dod i Gymru o lawer o wahanol wledydd oherwydd amrywiaeth o sefyllfaoedd parhaus fel ansefydlogrwydd gwleidyddol a chymdeithasol.

Gan fod y don ddilynol hon o ffoaduriaid yn cael eu croesawu i Gymru, mae angen iddynt gael llety o ansawdd da, lwfansau byw, gofal iechyd, addysg a chefnogaeth emosiynol. Mae dogfennau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru megis y Cynllun Cenedl Noddfa (LlCC, Ionawr 2019) wedi amlinellu dull cyfannol o gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y grwpiau agored i niwed hyn yn gallu datblygu eu perthynas gymdeithasol, cael cyfleoedd i gael gafael ar addysg o safon, a manteisio ar gyfleoedd economaidd. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys nodau clir i bob ffoadur a cheisiwr lloches ennill sgiliau hanfodol gan gynnwys ESOL a llythrennedd digidol, yn ogystal â chyfleoedd a chyllid i gael mynediad at addysg bellach ac uwch. Mae hefyd yn ceisio rhoi i ffoaduriaid a cheiswyr lloches y wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i integreiddio'n llwyddiannus yn eu hamgylcheddau newydd.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, canolbwyntiwyd ar gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn systemau addysg cenedlaethol, ac mae ysgolion a cholegau wedi dod yn gyd-destun amlwg ar gyfer hyrwyddo adsefydlu ac integreiddio dysgwyr sydd wedi'u hailsefydlu a'u teuluoedd. Mae hwn yn ateb pragmataidd gan fod ysgolion a cholegau yn fannau lle gall ffoaduriaid sefydlu perthnasoedd newydd, datblygu sgiliau newydd, a dechrau addasu ac integreiddio i gymdeithas (Dryden-Peterson et al., 2019). Gall dysgu i deimlo'n ddiogel a chael eich derbyn fod yn swyddogaeth allweddol o ran addysgu ar gyfer llawer o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid, yn hen ac yn ifanc, gan fod ysgolion ac athrawon yn darparu amgylchedd a threfn strwythuredig, a chyd-bresenoldeb gofalgar athrawon sy'n gallu monitro lles unigolion a chanfod anghenion ychwanegol (Primdahl et al., 2021). Mae'r rhain yn ffactorau allweddol o ran helpu ffoaduriaid i deimlo'n sefydlog, ond ni all ysgolion ac athrawon fod yn gyfan gwbl gyfrifol am ddiwallu anghenion cymhleth a lluosog dysgwyr sy'n ffoaduriaid, ac mae hefyd angen mewnbwn, polisïau ac adnoddau gan gynghorau lleol, llywodraethau a gwasanaethau iechyd.

Nid yw arhosiad o 5-10 mlynedd mewn gwersyll ffoaduriaid yn anghyffredin i lawer o ffoaduriaid, ac mae hynny'n gallu cael effaith ddinistriol ar ddatblygiad addysgol (Oh a Van der Stouwe, 2008). Mae dysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd yn profi dadleoli, cam-drin a gwahaniaethu yn ystod eu cyfnod o symud ac aros mewn gwersylloedd, yn ogystal â misoedd ar fisoedd o golli ysgol. Gall y profiadau hyn ynghyd ag ansicrwydd ynghylch yr hawl i aros yn y DU arwain at ddiffyg hyder dealladwy, hunan-barch isel, trallod meddyliol ac emosiynol (Stevenson a Willott, 2007). Yn sicr, mae gan ysgolion a cholegau rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi ac amddiffyn dysgwyr sy'n dod o gefndiroedd mor heriol ac sy'n cyrraedd gyda'r anghenion cymorth emosiynol ac iechyd meddwl cymhleth hyn sy'n aml heb gael eu diwallu. Mae angen dull cyfannol sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer amrywiaeth o anghenion dysgu, cymdeithasol ac emosiynol (Arnot, Pinson, a Candappa, 2009). Gall athrawon a gweithwyr cymorth nodi'r anghenion ychwanegol hyn, ond mae'n bosibl yn aml nad oes ganddynt yr adnoddau na'r hyfforddiant i ddelio'n briodol â nhw (Mock-Munoz de Luna et al., 2020).

Mae diffyg hyfforddiant neu baratoi ar gyfer gweithio gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn golygu bod ysgolion ac athrawon yn aml yn ansicr pa fathau o gymorth sydd ei angen ar ddysgwyr sy'n ffoaduriaid, a beth yw'r camau gorau i'w cymryd (Lundberg,2020). Nid yw'n hawdd adnabod pob ffoadur fel hyn, ac weithiau gall fod yn anodd i ysgolion ac athrawon wahaniaethu rhwng ffoaduriaid sy'n dod o wledydd o ryfela, a dysgwyr eraill nad ydynt yn siarad Saesneg (nad ydynt yn ffoaduriaid) sydd hefyd wedi cyrraedd o rannau eraill o'r byd yn ddiweddar. Gall hyn olygu nad yw anghenion cymhleth ffoaduriaid yn cael eu deall na'u diwallu'n iawn: anghenion fel addysg fylchog a phrofiad o drawma, tlodi teuluol ac arwahanrwydd cymdeithasol. O ganlyniad, mae dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn aml yn cael eu cyfuno â chategorïau eraill o ddysgwyr fel myfyrwyr EAL/ESOL, neu'r rheini sydd ag anawsterau dysgu (Sidhu a Taylor, 2007).

Gall ysgolion a cholegau ddarparu cyfleoedd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ennill y sgiliau, y cymwyseddau a'r ardystiadau y mae eu hangen arnynt i integreiddio'n llwyddiannus a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Gyda'r gobeithion hyn mewn golwg, mae gan lawer o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd ddyheadau uchel ar gyfer addysg pan ddônt i'r DU (Stevenson a Willott, 2007; Morrice et al., 2020). Mae'n bosibl bod rhai teuluoedd wedi cael eu hamddifadu o sefydlogrwydd teuluol a'r cyfle i fynd i'r ysgol yn rheolaidd ers sawl blwyddyn, felly pan fyddant yn cyrraedd y DU o'r diwedd, nid ydynt yn mynd i wastraffu cyfle gwerthfawr i wneud cynlluniau a dechrau o'r newydd. Fodd bynnag, er gwaethaf y cymhelliant hwn, nid yw'r newid i system addysg y DU bob amser yn syml, yn enwedig i ddysgwyr hŷn sy'n gorfod mynd i'r ysgol uwchradd heb fynd i'r ysgol gynradd yn y wlad hon. Mae'n cymryd misoedd lawer (blynyddoedd hyd yn oed) i rai dysgwyr ddatblygu sgiliau iaith digonol i allu gweithredu'n effeithiol yn eu hamgylchedd newydd, ac yn aml bydd angen lefelau uchel o gymorth ychwanegol ar y dysgwyr hyn i ddeall y cwricwlwm yn llawn neu i ddilyn cymwysterau (RoadstoFuge, 2020). Mae'r dybiaeth bod ffoaduriaid sydd wedi bod yn byw mewn gwersylloedd neu amgylchiadau dros dro eraill am fisoedd yn gallu dal i fyny â'u cyfoedion nad ydynt yn ffoaduriaid mewn ychydig fisoedd, heb fawr ddim cymorth, neu ddim cefnogaeth o gwbl, wedi cael ei phrofi'n ddi-sail dro ar ôl tro (Lundberg,2020; Hutchinson a Reader, 2020).

Mae hon yn agwedd hollbwysig ar ailsefydlu dysgwyr sy'n ffoaduriaid, a gall cynhwysiant heb lefelau priodol o gefnogaeth, neu werthfawrogiad priodol o'r anawsterau y mae llawer o ddysgwyr wedi'u hwynebu, olygu bod integreiddio priodol yn anodd i'r teuluoedd a'r dysgwyr hyn ei gyflawni. Efallai y bydd ymdeimlad o berthyn a mynediad at gyfleoedd economaidd yn y dyfodol yn parhau'n brin (Drynden-Peterson et al., 2019). Gall llwybrau a chymwysterau addysgol amgen fod yn opsiwn gwell i lawer o ddysgwyr, ond nid yw'r llwybrau hyn ar gael bob amser. Mae addysg uwchradd yn y DU yn canolbwyntio'n bennaf ar baratoi ar gyfer arholiadau TGAU o 14 oed ymlaen, ac nid yw bob amser yn cael ei gwneud yn glir i ddysgwyr

sy'n ffoaduriaid pa opsiynau eraill sydd ar gael i'r rheini nad ydynt yn mynd i'r chweched dosbarth neu i'r brifysgol (Morris et al., 2020). I lawer, cyrsiau ESOL neu ESOL + yn y coleg yw'r unig ddewis. Yn aml, nid yw teuluoedd ffoaduriaid yn gallu helpu eu plant i ddysgu Cymraeg a Saesneg gartref ac efallai nad oes ganddynt lawer o sgiliau llythrennedd yn eu hieithoedd eu hunain. Mae hyn yn golygu bod llawer o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yn ei chael hi'n anodd cael cymwysterau cydnabyddedig ar yr oedran priodol, ac mae adroddiad diweddar ar ganlyniadau addysgol plant sy'n ffoaduriaid ac yn chwilio am loches yn Lloegr wedi dangos bod llawer o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yn disgyn yn sylweddol y tu ôl i'w cyfoedion nad ydynt yn fudwyr o ran cyrhaeddiad mewn TGAU (Hutchinson a Reader, 2020).

Yn aml, mae angen cymorth emosiynol a bugeiliol ychwanegol ar ddysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd, gan gynnwys cyngor ac arweiniad am raglenni addysgol a phosibiliadau yn y dyfodol, ond nid oes ganddynt rwydwaith o deulu a ffrindiau yn y DU sy'n gallu darparu hyn. Gall ysgolion ac ymarferwyr ddarparu rhywfaint o'r wybodaeth a'r gefnogaeth hon, ond heb bolisi penodol wedi'i dargedu ar gyfer dysgwyr sy'n ffoaduriaid ynghyd ag adnoddau cyllidebol digonol, mae'n anodd i ychydig o unigolion ymdopi â niferoedd a gofynion cynyddol eu dysgwyr sy'n ffoaduriaid (Taylor a Sidhu, 2012). Nid oes digon o staff wedi'u hyfforddi ar gyfer ESOL ac mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol cyfyngedig ar gyfer staff eraill yn golygu na ellir diwallu rhai o anghenion dysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd. Gall yr anawsterau hyn gael eu gwrthbwyso'n rhannol gan bresenoldeb athro neu weithiwr cymorth mewn ysgolion sy'n gallu siarad yr un iaith â dysgwyr sy'n ffoaduriaid ac sy'n gallu gweithredu fel pont rhwng ysgol, cartref, athrawon eraill, a myfyrwyr (Lundberg, 2020). Gall cynorthwywyr addysgu dwyieithog leisio anghenion ffoaduriaid a helpu gyda'u hintegreiddio cymdeithasol. Mae hyfforddi athrawon i weithio mewn lleoliadau amlddiwylliannol, meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfathrebu rhyngddiwylliannol, yn ffyrdd ychwanegol o gefnogi staff yn well i weithio gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid.

Mae ymrwymiad cryf i gyfiawnder cymdeithasol, dathlu amrywiaeth a dull cynhwysol o weithredu, wedi cael eu nodi fel rhai o nodweddion arferion da mewn addysg ffoaduriaid (Pinson, Arnot, a Candappa, 2010; Taylor a Sidhu, 2012). Tynnodd Arnot a Pinson (2005) sylw hefyd at bwysigrwydd cyfranogiad rhieni a gwell cysylltiadau cyfathrebu rhwng ysgolion ac asiantaethau cymunedol, sy'n gallu cefnogi rôl yr ysgol yn y gymuned a helpu dysgwyr sy'n ffoaduriaid i addasu i fywyd yn y DU. Gallai hyn gynnwys timau adsefydlu, sefydliadau ffoaduriaid, colegau a chyflogwyr lleol. Mae model Tikly (2016) ar gyfer darparu addysg o ansawdd da i ffoaduriaid a grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn cynnwys amgylchedd cartref a chymuned sy'n galluogi, amgylchedd galluogi yr ysgol, polisïau a phrosesau galluogi yn y cyd-destun ehangach, a'r elfen hanfodol ychwanegol o allu ieithyddol, sef y mecanwaith lle gall ffoaduriaid a mudwyr gael mynediad at wasanaethau a phosibiliadau economaidd. Rhaid i hyfedredd mewn iaith gael ei ddatblygu gan ddysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u rhieni os yw eu lleisiau i gael eu clywed, ac os ydynt i gael eu hintegreiddio'n iawn.

Mae llawer o'r dulliau a'r strategaethau hyn eisoes ar waith mewn ysgolion sydd â phrofiad helaeth o weithio gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd, a gellir gweithredu'r rhain yn ehangach. Fodd bynnag, heb bolisïau penodol ac adnoddau cyllideb ar waith ar gyfer y dysgwyr hyn, ni ellir troi delfrydau cyfiawnder cymdeithasol yn ymarfer yn hawdd.

# 4. Methodoleg

## 4.1 Cymeradwyaeth Foesegol

Cafwyd cymeradwyaeth foesegol i'r astudiaeth hon gan sefydliadau cyfranogol rhan ym mis Rhagfyr 2021.

## 4.2 Gweithdrefnau

Cynhaliwyd y cyfweliadau mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru ac fe'u cynhaliwyd gan sawl aelod o'r tîm ymchwil, pob un yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyfweld yn eu hardal. Cafodd y rhan fwyaf o gyfweliadau eu cynnal ar-lein oherwydd cyfyngiadau Covid, ond roedd hi hefyd yn bosibl cynnal nifer fach o gyfweliadau wyneb yn wyneb. Cafodd pob cyfweliad ei recordio a'i drawsgrifio'n ddiweddarach.

Defnyddiwyd dulliau samplo pwrpasol gan mai'r nod oedd sicrhau bod achosion sy'n llawn gwybodaeth yn cael eu canfod a'u dethol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau prin. Mae hyn yn golygu bod y tîm ymchwil wedi cysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion a sefydliadau y gwyddid bod ganddynt ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yn eu poblogaeth, ac wedi gofyn am gyfranogwyr posibl o blith y rheini a oedd yn gyfrifol am addysgu a chefnogi'r dysgwyr hyn. Y pwrpas oedd casglu data gan ymarferwyr a safleoedd â phrofiad.

Roedd y tîm ymchwil yn cynnwys staff academaidd o ddwy brifysgol sy'n addysgu amrywiaeth o raglenni, sydd wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o faterion amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol, yn eu lleoliadau proffesiynol ac yn eu cymunedau lleol. Mae'r prif ymchwilydd yn ddarlithydd prifysgol mewn Addysg ac mae ganddi hefyd flynyddoedd lawer o brofiad o weithio fel athro anghenion arbennig. Mae hi'n ymwneud yn frwd â nifer o elusennau a rhwydweithiau cefnogi sy'n darparu cymorth i ail-sefydlu teuluoedd dan y rhaglen Adsefydlu Pobl Agored i Niwed a chynlluniau Nawdd Cymunedol.

Yn y rolau hyn, roedd gan y tîm ymchwil wybodaeth flaenorol sylweddol am ysgolion a sefydliadau sy'n cefnogi teuluoedd a dysgwyr sy'n ffoaduriaid. Mewn rhai achosion, defnyddiwyd dull caseg eira wrth i gyfranogwyr cychwynnol a gytunodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth allu awgrymu rhagor o gysylltiadau posibl.

Anfonwyd gwybodaeth am yr astudiaeth at bob ysgol a oedd yn cymryd rhan a threfnwyd cyfweliadau ar ôl cael caniatâd.

## 4.3 Cyfranogwyr

Mae'r astudiaeth hon yn cynrychioli safbwyntiau ymarferwyr o wyth sefydliad gwahanol ledled Cymru, gan gynnwys chwe ysgol (dwy ysgol uwchradd a phedair ysgol gynradd), un coleg AB ac un Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd ymarferwyr yn cynnwys penaethiaid, athrawon dosbarth, arbenigwyr EAL, a chynorthwywyr addysgu dwyieithog. Roedd un cyfranogwr wedi cytuno i gymryd rhan o'r rhan fwyaf o sefydliadau, ond dau neu dri o rai eraill. Cafodd ysgolion a gwasanaethau o'r gwahanol gonsortia rhanbarthol eu cynrychioli, gan gynnwys rhai o GWE, ERW, CSC, ac EAS. I ryw raddau, roedd ymatebion y cyfranogwyr yn adlewyrchu eu lleoliadau a'u cyd-destunau unigryw: mae rhai'n gweithio mewn lleoliadau trefol gyda nifer fawr o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid ym mhoblogaeth eu hysgol, ac mae eraill mewn lleoliadau mwy gwledig wedi croesawu dim ond nifer fach o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid hyd yma.

Roedd cyfanswm y sampl yn ddeuddeg o gyfranogwyr o wyth sefydliad. Mae'r sampl wedi'i chynrychioli yn y tabl isod:

Tabl 1: Sampl o gyfranogwyr

| Pennaeth | Athro dosbarth | Arbenigwr EAL | Cynorthwyydd Dysgu Dwyieithog | Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig |
|---|---|---|---|---|
| 3 | 4 | 2 | 1 | 2 |

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau ar-lein a chawsant eu recordio a'u trawsgrifio gyda chaniatâd y cyfranogwyr. Cynhaliwyd y cyfweliadau yn Saesneg rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 gan y tîm ymchwil yn y Gogledd a'r De.

Er gwaethaf y nifer cyfyngedig o gyfweliadau a gynhaliwyd, roedd ansawdd y data wedi galluogi'r tîm ymchwil i gael cipolwg gwerthfawr ar nifer o'r heriau, y llwyddiannau a'r problemau o ran adnoddau sy'n effeithio ar waith ymarferwyr gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn ystod y pandemig ac ar ôl hynny.

## 5. Cyflwyno a dadansoddi data

Cafodd y data ei drawsgrifio a’i ddadansoddi’n thematig gan ddilyn protocol Braun a Clarke (2006). Darllenwyd trawsgrifiadau dro ar ôl tro i nodi negeseuon a themâu allweddol, a gwiriwyd themâu ar draws yr holl drawsgrifiadau. Defnyddiwyd dyfyniadau ac is-benawdau i amlinellu prif nodweddion y cofnodion ac i gyflwyno naratif cydlynol. Rhannwyd yr adroddiad hwn gydag aelodau eraill y tîm ymchwil i ddatblygu dadansoddiad pellach a dod i gasgliadau.

Mae’r dadansoddiad yn seiliedig ar yr hyn mae cyfranogwyr wedi’i ddweud ac mae dyfyniadau gair-am-air gan gyfranogwyr wedi cael eu hymgorffori drwy gydol y dadansoddiad er mwyn rhoi darlun dilys o brofiad ysgolion ac athrawon sy’n gweithio gyda dysgwyr sy’n ffoaduriaid yng Nghymru, yn ystod y pandemig a thu hwnt. Ni nodir enwau’r cyfranogwyr na’r sefydliadau sy’n cymryd rhan drwyddi draw.

Cyflwynir data mewn fformat naratif mewn ymateb i gwestiynau’r ymchwil. Cyflwynir y cwestiynau hyn yn Atodiad A ac maent yn ymwneud â phrofiadau athrawon ac ysgolion sy’n gweithio gyda dysgwyr sy’n ffoaduriaid yng Nghymru, strategaethau a ddatblygwyd i gefnogi dysgwyr o’r fath yn ystod ac ar ôl y pandemig, yn ogystal â’r adnoddau a’r mecanweithiau cymorth sydd eu hangen ar frys i gynnal a gwella arferion gwaith effeithiol gyda’r dysgwyr hyn.

## 6. Prif Ganfyddiadau

Mae themâu wedi cael eu tynnu o ddata cyfweliadau a'u rhannu'n bedair prif adran sy'n cyfateb i'r cwestiynau ymchwil cychwynnol. Mae'r adran gyntaf yn edrych yn fanwl ar brofiadau ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid yng Nghymru yn ystod ac ar ôl pandemig Covid-19. Mae'r adran nesaf yn edrych ar yr adnoddau, y gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi lles dysgwyr sy'n ffoaduriaid mewn ysgolion. Mae'r adran ganlynol yn ystyried strategaethau'r ystafell ddosbarth a'r ysgol gyfan y gellid eu defnyddio i gefnogi'r dysgwyr hyn ac mae'r adran olaf yn dod i gasgliadau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer llunwyr polisïau a sefydliadau i helpu ysgolion wella ymarfer.

### 6.1 Profiadau ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru yn ystod pandemig Covid-19

Mae'r adran hon yn crynhoi profiadau sampl fach o athrawon, penaethiaid, gweithwyr cymorth ac arbenigwyr iaith sy'n gweithio gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru yn ystod ac ar ôl y pandemig. Er bod maint y sampl yn gyfyngedig, mae dyfnder profiad a dealltwriaeth y cyfranogwyr o lawer o'r materion sy'n effeithio ar ddysgwyr sy'n ffoaduriaid wedi galluogi'r tîm ymchwil i gael dealltwriaeth a dod i gasgliadau sydd wedi'u seilio'n llwyr ar y data a ddarparwyd.

#### 6.1.1 Sydynrwydd cau ysgolion

Roedd rhai athrawon a phenaethiaid yn siomedig bod ysgolion wedi cael eu gorfodi mor sydyn i gau yn ystod cyfnod y pandemig cyntaf oherwydd byddai wedi bod yn well ganddynt gael mwy o ymreolaeth i sefydlu eu trefniadau eu hunain ar gyfer dysgwyr. Roedd cyflymder cyflwyno'r cyfyngiadau a'r diffyg amser i athrawon werthuso'r dystiolaeth ynghylch cau ysgolion ac effeithiau posibl ar ddysgwyr yn gwneud i nifer o athrawon deimlo'n anesmwyth. Sefydlwyd canolfannau mewn rhai ardaloedd a oedd yn golygu bod dysgwyr yn teithio i wahanol ysgolion ac yn cael eu haddysgu gan athrawon anghyfarwydd. Er bod yr holl ddysgwyr yn teimlo'r tarfu hwn i ryw raddau, roedd yn arbennig o annymunol i grwpiau agored i niwed fel dysgwyr sy'n ffoaduriaid, a oedd wedi arfer cael cymorth arbenigol gan aelodau penodol o staff yr oeddent wedi meithrin perthynas ymddiriedus â nhw. Roedd yr hyblygrwydd ychwanegol yn ystod yr ail gyfnod clo yn cael ei werthfawrogi.

#### 6.1.2 Amgylchedd y cartref

Mae addysgu gartref yn dibynnu i raddau helaeth ar y cyfleoedd dysgu a'r adnoddau a ddarperir yn yr amgylchedd cartref, ond mae hyn yn peri mwy o risg i ddysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Mae tlodi, ansicrwydd bwyd, tai annigonol, diffyg gwres ac adnoddau sylfaenol, yn anawsterau a rennir gan rai dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn ogystal â grwpiau lleiafrifol a difreintiedig eraill. Er nad yw pob aelwyd sy'n ffoaduriaid dan anfantais economaidd, mae materion fel gorlenwi, iechyd gwael a diweithdra yn effeithio ar lawer.

Mae cynlluniau fel y Cynllun Ailsefydlu Pobl Agored i Niwed (VPRS) yn adsefydlu'n benodol deuluoedd ffoaduriaid sydd ag anghenion iechyd neu addysgol ychwanegol, felly gall llawer o'r dysgwyr hyn fod o gefndiroedd cymharol ddifreintiedig.

> 'Mae ein plant, pan fyddant yn cyrraedd, oherwydd meini prawf penodol y Cenhedloedd Unedig, er mwyn iddynt gael statws ffoaduriaid, mae'n golygu eu bod yn gyffredinol yn cyrraedd gyda llawer o anghenion, p'un a ydynt yn gorfforol neu'n addysgol'.

Mynegwyd pryderon gan gyfranogwyr y gallai cau ysgolion waethygu anghydraddoldebau cymdeithasol ac addysgol sydd eisoes yn bodoli. Trafodwyd pryderon am dlodi bwyd, tai annigonol, gorlenwi, trais yn y cartref, a diffyg adnoddau rhieni yn y cartref. Mae llawer o deuluoedd ffoaduriaid yn byw mewn amodau cyfyng, gydag adnoddau cyfyngedig, fel nad oes gan ddysgwyr le tawel a chynnes i weithio gartref.

> 'Mae gennym broblemau gyda phlant sydd angen banciau bwyd. Mae gennym broblemau gyda phob math o bethau a phan nad ydych chi'n eu gweld bob dydd am fisoedd ar y tro, dydych chi ddim yn gwybod beth maen nhw wedi gorfod ei oddef a beth maen nhw'n brwydro yn ei erbyn gartref. Rydw i – i lawer o'n plant, yr ysgol yw'r lle diogel. Dyna lle maen nhw'n teimlo'n hapus. Dyna lle maen nhw'n teimlo'n hyderus, ar ôl peidio â chael hynny'.

Mae athrawon a gweithwyr cefnogi wedi arfer darparu cymorth dwys i ddysgwyr agored i niwed mewn ysgolion yn ddyddiol/wythnosol, felly roedd llawer ohonynt yn ddealladwy yn poeni'n am golli'r cyswllt rheolaidd hwn. Gall arferion ysgol a chyswllt ag athrawon a chyfoedion gynnig sicrwydd a sefydlogrwydd i ddysgwyr agored i niwed, a heb eu cyd-bresenoldeb wyneb yn wyneb dyddiol mewn ysgolion, roedd hi'n anodd i staff wybod sut roedd dysgwyr yn ymdopi.

Mae nifer o'r ysgolion yn yr astudiaeth hon mewn ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol ac wedi cael mewnlifiad o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd hefyd yn effeithio ar ddemograffeg yr ysgol. Mae cynyddu amrywiaeth yn rhywbeth y mae ysgolion ac athrawon yn dod yn fwy cyfarwydd ag ef.

> 'Ond yn y bôn, ni yw'r unig ysgol sydd heb ordanysgrifio, mae'r ffoaduriaid i gyd wedi bod yn dod atom ni ers hynny, wel, y mwyafrif beth bynnag. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae'r ddemograffeg wedi newid yn aruthrol. A byddwn yn dweud bod pobl wyn yn rhyw fath o leiafrif yn yr ysgol erbyn hyn. Mae'n anhygoel o amrywiol nawr'.

Mae rhai dysgwyr sy'n ffoaduriaid wedi colli blynyddoedd o addysg yn ystod taith mudo eu teulu ac efallai nad oes ganddynt lawer o sgiliau llythrennedd a sgiliau sylfaenol hyd yn oed mewn ieithoedd cartref sy'n gallu ei gwneud yn arbennig o anodd dysgu Saesneg a phynciau eraill. Mewn rhai achosion, mae teuluoedd ffoaduriaid hefyd wedi colli addysg ffurfiol yn eu gwledydd eu hunain.

> 'Dydy llawer o'r plant rydyn ni'n eu cael erioed wedi cael addysg o'r blaen, yn enwedig pan fyddan nhw'n dod o Swdan, o Irac, mae eu haddysg wedi bod yn fylchog iawn, felly mae rhai myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r pethau sylfaenol go iawn, gydag adio a thynnu'.

Mae ysgolion ac athrawon yn deall yn iawn bwysigrwydd cefnogi teuluoedd dysgwyr sy'n ffoaduriaid i wneud cynnydd gyda sgiliau iaith ac yn academaidd, fel bod uwchsgilio rhieni a chynyddu eu cyfraniad i lwyddiant eu plant yn rhan allweddol o'r strategaeth addysgu.

> 'Felly, y broblem iddyn nhw yw'r aelwyd. Nid yr ysgolion sy'n gyfrifol am y ffaith eu bod yn araf yn gwella mewn iaith. Boed hynny yn gynradd neu'n uwchradd. Ond y cartref. Y rhieni. Ond pan fyddaf yn gofyn iddynt, allwch chi ddarllen ac ysgrifennu Arabeg? Mae rhai ohonyn nhw, dydyn nhw ddim...maen nhw, dydyn nhw ddim yn dda iawn am ddarllen ac ysgrifennu Arabeg...rydyn ni'n poeni am hynny, a dyna pam rydw i bob amser yn dweud wrth y rhieni, mae'n rhaid i chi fod yn siŵr nad yw eich

plentyn yn colli ei iaith gartref. Rhaid i chi fod yn siŵr eich bod yn eistedd gyda nhw, ond dydw i ddim yn gwybod os ydyn nhw'n trafferthu'.

### 6.1.3 Dosbarth bach, cefnogaeth ddwys yn yr ysgol i ddysgwyr agored i niwed

Roedd ymarferwyr mewn ysgolion ledled Cymru wedi trefnu bod cymorth yn cael ei roi i lawer o grwpiau o ddysgwyr agored i niwed yn ystod y pandemig a'r cyfnod adfer ar ôl y pandemig. Cafodd dysgwyr sy'n ffoaduriaid eu cynnwys yn y grwpiau hyn yn ystod y ddau gyfnod clo ac fe'u hanogwyd i fynychu gwersi yn yr ysgol. Nid oedd hyn yn orfodol, felly, er bod peth presenoldeb da drwy'r amser, roedd llawer o rieni'n teimlo'n fwy diogel o gael eu plant gartref, yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Roedd rhai ysgolion yn cynnal lefelau uchel o bresenoldeb ymysg grwpiau o ddysgwyr agored i niwed, llawer ohonynt yn dod i'r ysgol bob dydd o'r cychwyn cyntaf.

Roedd athrawon a gweithwyr cymorth yn gallu parhau i ddarparu amgylchedd meithringar mewn ysgolion yn ystod y pandemig, gan wneud yn siŵr bod plant yn cael eu bwydo bob dydd a'u bod yn cael cymorth cymdeithasol.

### 6.1.4 Cyfleoedd i ddal i fyny

Lle'r oedd dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn gallu mynychu gwersi ar y campws, roeddent yn parhau i gael cymorth dwys gyda datblygu iaith ac i ddilyn cwricwlwm hyblyg; roeddent yn cael eu rhoi mewn dosbarthiadau bach ac yn cael technoleg i gael mynediad at sesiynau addysgu ar-lein. Roedd darpariaeth dosbarthiadau bach yn galluogi'r dysgwyr hyn i gael y lefelau uchaf o gefnogaeth ac i weithio ar eu cyflymder eu hunain. Roedd y cyfnod ychwanegol hwn o gefnogaeth ddwys yn gyfle i rai dysgwyr ddal i fyny â datblygu sgiliau hanfodol ac, mewn rhai ffyrdd, roedd hyn yn well na'r ddarpariaeth arferol lle byddai dysgwyr mewn grwpiau mwy yn dilyn yr amserlen brif ffrwd. Mewn rhai achosion, dywedodd athrawon fod y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr ar y campws a'r hyblygrwydd i gynnig cymysgedd o wersi a gweithgareddau llesiant yn ystod y cyfnod clo, wedi bod yn arbennig o fuddiol i rai dysgwyr sy'n ffoaduriaid.

> 'Roeddwn i'n dod i mewn bob dydd yn ystod Covid, a hefyd y rhan fwyaf ohonyn nhw, a oedd yn fuddiol iawn iddyn nhw oherwydd roedden nhw'n dal i fyny pan nad oedd llawer o'r plant prif ffrwd yn ymgysylltu o gwbl, felly roedd y criw yma i mewn bob un diwrnod'.

I rai dysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd, y cyfle i gael addysg yw un o'r prif gymhellion dros ddod i'r DU i fyw, ac maent yn dangos presenoldeb rhagorol ac yn cwblhau gwaith cartref yn rhagorol. Soniodd nifer o'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon am ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yn cymryd addysg yn fwy difrifol na rhai grwpiau eraill o fyfyrwyr.

> 'Yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw bod yna, ar y cyfan, o'i gymharu â'r plant Prydeinig Gwyn prif ffrwd, bod yna bwyslais go iawn ar addysg'.

Dywedodd athrawon nad oedd y dysgwyr hyn yn cymryd dim yn ganiataol, ar ôl treulio amser yn byw mewn gwersylloedd ffoaduriaid lle nad oedd adnoddau ar gael yn aml heblaw bwrdd a phin ysgrifennu.

> 'Ein disgyblion sy'n dod o wledydd sydd wedi dioddef rhyfel, neu'r math o statws ffoaduriaid... y ffaith bod ganddynt addysg, bod ganddynt dechnoleg yn yr adeilad, bod ganddynt athrawon gwahanol sy'n fedrus, y ffaith bod gennym ddosbarth meithrin gyda thri aelod o staff'.

**6.1.5 Anawsterau o ran cael gafael ar wersi ar-lein ac adnoddau addysgu**

Er bod llawer o athrawon ac ysgolion yn anghyfarwydd â dulliau addysgu ar-lein ar ddechrau'r pandemig, roedd yn rhaid iddynt greu adnoddau a gweithgareddau ar-lein ar frys. Roedd gwersi wedi'u recordio'n fyw yn cael eu hamserlennu bob wythnos er mwyn i ddysgwyr gael mynediad ar-lein, ac roedd dysgwyr yn cael taflenni gwaith ac aseiniadau i'w cwblhau gartref a'u dychwelyd gan ddefnyddio pyrth yr ysgol. Dyma oedd y prif ddull o addysgu a dysgu drwy gydol llawer o'r pandemig. Roedd athrawon hefyd wedi trefnu tiwtorialau ar-lein unigol gyda dysgwyr i wirio eu cynnydd a'u dealltwriaeth. Nododd ysgolion ddysgwyr nad oedd ganddynt lawer o fynediad at dechnoleg gartref a roeddent yn gallu darparu gliniaduron, iPads a donglau i bob teulu cymwys lle bo angen. Darparwyd technoleg hefyd gan gynghorau lleol a busnesau preifat.

Cafodd amrywiaeth o apiau a llwyfannau ar-lein eu treialu, fel Teams, Zoom, Google Classroom, Hub, Seesaw, Crash Academy, Giglets a rhaglenni dysgu ieithoedd eraill. Roedd rhai o'r rhain ar gael yn rhad ar y dechrau ond daethant yn ddrutach wrth i'r pandemig fynd rhagddo, fel nad oedd ysgolion yn gallu adnewyddu tanysgrifiadau.

Er gwaethaf y ddarpariaeth hon, cafodd llawer o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr sy'n ffoaduriaid, anawsterau sylweddol o ran mynd ar-lein a chael gafael ar adnoddau, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Roedd hyn yn rhannol oherwydd nad oeddent yn gyfarwydd â thechnoleg, rhwystrau iaith a diffyg cymorth teuluol ar gyfer dulliau addysgu ar-lein. Nid oes gan lawer o deuluoedd sgiliau llythrennedd a digidol ac nid oedd ganddynt lawer o ddealltwriaeth o'r math o waith y gofynnwyd i'w plant ei wneud.

> 'Oherwydd byddwn i'n dweud, y rhan fwyaf o'r ffoaduriaid, dydyn nhw ddim wedi gweithio ar-lein o gwbl, yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, oherwydd roedd yn system newydd beth bynnag ar gyfer y DU gyfan, yn gyffredinol. Ond byswn yn dweud, y bobl a aned yma yn y DU, eu bod wedi delio â'r dechnoleg. Wel, maen nhw wedi bod yn delio â gliniadur. Maen nhw wedi bod yn delio â negeseuon e-bost. Maen nhw wedi bod yn delio â phethau felly. Ond y bobl o'r Dwyrain Canol, nid yw yr un fath'.

Gallai dulliau dysgu hunangyfeiriedig fod yn arbennig o anodd i ddysgwyr agored i niwed neu'r rheini sydd â rhwystrau iaith. Roedd dealltwriaeth annigonol o'r tasgau a osodwyd neu'r angen i gwblhau gwaith cartref a chael adborth, yn golygu bod eu haddysg yn cael ei hoedi i bob pwrpas i rai dysgwyr yn eu cartrefi.

Mae dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn aml yn cael lefelau uchel o gefnogaeth ychwanegol gan athrawon a gweithwyr cymorth yn yr ysgol, sy'n anodd iawn eu hefelychu gartref. Mae gwersi gyda chynorthwyydd hyfforddedig yn eistedd wrth ymyl y dysgwyr yn y dosbarth i egluro cysyniadau neu eirfa allweddol yn defnyddio llawer o adnoddau ac mae'n arbenigol. Nid oedd y rhan fwyaf o deuluoedd dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn gallu darparu'r lefel hon o gefnogaeth arbenigol gartref.

> 'Oherwydd os oedden nhw'n aros gartref, roedd yn ofnadwy, oherwydd yn y cartref dydy'r rhan fwyaf o ddisgyblion ddim yn astudio gartref, dydyn nhw ddim yn ei hoffi, dim ond chwarae gemau, maen nhw angen rhywun arall i ofalu amdanyn nhw, dweud wrthyn nhw am wneud hyn a llall, fel arall maen nhw'n colli eu gwersi'.

Mewn achosion lle nad oedd dysgwyr yn gallu neu'n fodlon ymgysylltu ag adnoddau ar-lein, roedd athrawon a gweithwyr cymorth yn cysylltu drwy alwadau ffôn, negeseuon e-bost neu apiau negeseuon. Roedd y dulliau hyn yn galluogi staff i gadw mewn cysylltiad â llawer o

deuluoedd a dysgwyr sy'n ffoaduriaid, er nad oeddent yn ddigon i gynyddu cymhelliant na phresenoldeb mewn rhai achosion. Weithiau, trefnwyd ymweliadau cartref i ollwng pecynnau gwaith a thalebau bwyd.

Disgrifiodd un cynorthwyydd addysgu dwyieithog sut y bu iddynt dreulio pedair awr yn arwain rhieni dysgwr sy'n ffoadur drwy'r broses o fewngofnodi drwy alwad fideo WhatsApp, gan ddangos iddynt gam wrth gam sut i ddefnyddio prif lythrennau a chyfrineiriau.

> 'Ond dyma beth rydw i'n ei wneud, rydyn ni'n rhoi galwad ffôn WhatsApp. Ac wedyn byddaf yn dweud wrthi, 'Rho'r meic ymlaen ac yna dangos y sgrin i mi.' Ac wedyn byddaf yn dal i ddweud wrthi, 'Pwysa hwnna, pwysa hwnna, pwysa hwnna,' rhywbeth felly'.

Roedd enghreifftiau o lefelau uchel o ymgysylltu ar-lein, ond roedd hefyd nifer o achosion o ddiffyg ymgysylltu a dysgwyr yn methu â mewngofnodi i wersi neu gwblhau tasgau gwaith cartref yn rheolaidd. Nid oedd cael teuluoedd o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid i gefnogi addysg eu plant gartref yn syml mewn llawer o achosion, er gwaethaf ymdrechion gorau'r staff.

> 'Unrhyw blentyn nad oedd yn ymgysylltu, roeddem yn anfon rhestr at ein huwch reolwyr a'n swyddog ymgysylltu â theuluoedd, a chawsant y dasg o ffonio'r cartref, ond unwaith eto, mae ein swyddog ymgysylltu â theuluoedd a'r uwch dîm rheoli yn siarad Saesneg, felly fe wnaethon ni siarad â rhieni dros y ffôn, felly doedden ni dal ddim 100% yn gallu ffonio a dweud. O helo. Sut mae X, ac roedden nhw'n dweud, o ydi, mae X yn iawn. Wel – pam nad yw wedi gwneud unrhyw waith ar-lein? O wel. Rydyn ni wedi cael problemau gyda'r Rhyngrwyd, neu does gennym ni ddim amser oherwydd fy mod i allan yn y gwaith drwy'r dydd... neu mae ei frawd hŷn angen y cyfrifiadur oherwydd ei fod yn yr ysgol uwchradd a dyna ni'.

**6.1.6 Gwella sgiliau ar-lein yn ystod yr ail gyfnod clo**

Roedd y newid sydyn i ddysgu ar-lein yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf yn golygu bod yn rhaid i ysgolion, athrawon a dysgwyr ddatblygu sgiliau digidol yn gyflym. Roedd hyn yn anodd i lawer o ddysgwyr ac athrawon ond roedd yn arwain at welliant cyffredinol yn lefel y llythrennedd ar-lein tybiedig yn ystod yr ail gyfnod clo. Dywedodd nifer o'r cyfranogwyr, er nad oedd ysgolion wedi gallu cadw cysylltiad â rhai dysgwyr agored i niwed yn ystod y cyfnod clo cyntaf, pan ailagorodd ysgolion, bod ymdrechion ychwanegol yn cael eu gwneud i sicrhau bod gan bob dysgwr y sgiliau i fewngofnodi a chael mynediad i wersi.

> 'Fe wnaethon ni geisio cefnogi gwahanol grwpiau o blant a chafodd y plant sy'n ffoaduriaid gryn dipyn o'r gefnogaeth honno oherwydd roedden ni'n ymwybodol iawn nad oedden nhw wedi cael hynny yn ystod tymor yr haf, felly roedden ni'n mynnu eu bod nhw'n dod i mewn ac yn cael trefn ar hynny, felly roedden ni'n pwysleisio presenoldeb yn fawr iawn'.

Yn ystod yr ail gyfnod clo, dywedodd cyfranogwyr fod mwy o ddisgwyliad y byddai dysgwyr yn gwybod sut i fynd ar-lein a chwblhau tasgau, a bod athrawon yn llai parod i dderbyn honiadau o beidio â gwybod sut i gael mynediad i adnoddau. Roedd athrawon yn gwneud galwadau ffôn dyddiol i'r rheini a fethodd ymgysylltu, a chafodd dysgwyr eu hatgoffa i gwblhau tasgau ar bapur, os oedd angen, i'w cyflwyno pan gafodd yr ysgol ei hailagor.

> 'Rwy'n meddwl bod yr ail gyfnod clo, yr athro yn yr ysgolion, maent yn dechrau canolbwyntio ar...os yw'r holl blant yn mewngofnodi bob dydd i weld eu gwaith cartref ac i weld gwaith y dosbarth. Ac os nad oeddent, roeddent yn cysylltu â mi ar

unwaith. Felly, ie. Rydyn ni'n dechrau cael ar eu cyfer nhw i gyd...sicrhewch bod pob un ohonyn nhw'n gallu mewngofnodi. Ac os nad yw'n gallu rhoi ei waith i mewn, dywedodd yr athro os nad yw'n gallu rhoi ei waith i mewn, mae'n rhaid i ni sicrhau ei fod wedi gwneud hynny, rhoi gwaith papur i mewn'.

**6.1.7 Cyfathrebu â theuluoedd sy'n ffoaduriaid**

Mae cyfathrebu â rhieni a theuluoedd sy'n ffoaduriaid mewn ieithoedd a ffyrdd y gallant eu deall yn hawdd yn her sylweddol a amlygwyd yn fwy clir yn ystod y pandemig, gan fod yn rhaid i wybodaeth sylfaenol am gyngor Covid y llywodraeth, neu gyfarwyddiadau ynghylch sut i gael gafael ar ddeunyddiau ar-lein, gael ei chyfleu ar frys ac i bob teulu.

> 'Gan ddefnyddio'r pandemig fel enghraifft dda, os ydym am gyfleu'r rheolau newydd y mae'r llywodraeth wedi'u nodi, mae angen i ni wneud hynny'n ddelfrydol yn Gymraeg, Saesneg, y 39 iaith arall, ac mewn ffordd sy'n addas i rieni â llythrennedd isel ond hefyd i rieni gyda llythrennedd isel a Saesneg fel iaith ychwanegol'.

Roedd ysgolion wedi ceisio creu cysylltiadau cryfach â phob teulu yn ystod y pandemig, gan gynnwys teuluoedd dysgwyr sy'n ffoaduriaid, gan ddarparu gwybodaeth am reoliadau Covid, defnyddio technoleg, budd-daliadau a phrydau ysgol am ddim. Parhaodd y mathau hyn o gymorth drwy gydol y pandemig ac mewn rhai achosion maent wedi cryfhau'r cysylltiadau â theuluoedd.

> 'Yn ystod Covid oherwydd ein bod wedi cael sgyrsiau wythnosol gyda nhw, felly roedd hynny wedi helpu i feithrin perthynas dda – fe wnaethon ni helpu i gael trefn ar sut i hawlio prydau ysgol am ddim ac ati – felly roedd llawer o gyfathrebu drwy hynny, ond rydyn ni'n gweithio'n eithaf agos gyda'r teuluoedd, rydyn ni'n dod i'w hadnabod dros y blynyddoedd'.

**6.1.8 Diffyg cyswllt cymdeithasol ar gyfer teuluoedd agored i niwed**

Mynegwyd pryderon bod y diffyg cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a digwyddiadau yn ystod y cyfyngiadau symud wedi arwain at fwy o arwahanrwydd cymdeithasol, yn enwedig i ddysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd. Roedd gan deuluoedd ffoaduriaid, yr oedd llawer ohonynt ond newydd gyrraedd, lai o rwydwaith cymdeithasol lleol yn ei le i ddibynnu arno. Mae'n cymryd amser i ddatblygu ymdeimlad o berthyn i wlad newydd ac i deimlo'n gartrefol yn y gymuned. Nid oedd dysgwyr o gefndir ffoaduriaid yn gallu gwneud ffrindiau a mwynhau amser gyda'u cyfoedion yn ystod y cyfyngiadau symud.

> 'Felly, pan fo teuluoedd wedi cael eu geni a'u magu yma efallai'n mynd am dro gyda'i gilydd, ond efallai nad oedd gan rai ohonyn nhw'r cysylltiadau cymdeithasol yn eu ffonau symudol na'u grŵp WhatsApp i ofyn oes unrhyw un awydd mynd am dro yma heddiw, lle y bydden ni yma efallai yn gweld teuluoedd yn mynd gyda'i gilydd, gan gadw pellter cymdeithasol wrth gwrs'.

Mae diffyg cyswllt cymdeithasol yn effeithio'n arbennig ar grwpiau agored i niwed sydd eisoes mewn perygl o gael eu hallgau'n gymdeithasol ac sydd â llai o gefnogaeth deuluol.

> 'Rwy'n credu bod cydbwysedd yr ysgol a'r cartref yn hanfodol i'r rhan fwyaf o blant ac yn enwedig y rheini sydd wedi cael rhywfaint o drawma, neu'r teuluoedd sydd wedi dioddef trawma, mae angen y cysondeb hwnnw arnynt, ac mae angen iddynt wybod lle maen nhw'n mynd i fod. Mae gennym blant sydd wedi dioddef trawma yn gyffredinol erbyn hyn, nid dim ond ein teuluoedd ffoaduriaid. Ac mae'n drawma,

> wyddoch chi, pan fyddwch chi'n edrych ar rywfaint o wydnwch ein disgyblion nawr, dydy o ddim yn bodoli, wyddoch chi, ac ie, dydw i ddim yn gwybod'.

Wrth i'r pandemig barhau, roedd mwy o gydnabyddiaeth i bwysigrwydd gofal bugeiliol ac effeithiau niweidiol arwahanrwydd cymdeithasol i bob dysgwr, yn enwedig grwpiau agored i niwed. Roedd rhai ysgolion yn ategu gwersi yn y bore gyda gweithgareddau lles fel coginio, garddio a chwaraeon, ar ôl cinio. Darparwyd cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr sgwrsio â'i gilydd ar-lein, mewn ystafelloedd ymneilltuo a fforymau. Nid oedd disgwyl i ddysgwyr roi camerâu ymlaen, mewn achosion lle'r oedd hyn yn rhwystr i'w cyfranogiad.

Gwelodd athrawon ryddhad amlwg pan ddychwelodd dysgwyr i'r ystafell ddosbarth, er bod yn rhaid iddynt ddysgu sgiliau cymdeithasol pwysig eto. Roedd y rheini a gafodd gyfweliad wedi disgrifio bod llawer o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr sy'n ffoaduriaid, yn llawer tawelach pan wnaethant ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y pandemig. Roedd cydnabod colli hyder a phryder cynyddol rhai dysgwyr, athrawon a staff cymorth yn rhoi amser i ddysgwyr gymdeithasu ac ailsefydlu cyfeillgarwch pan ddaethant yn ôl i'r ysgol.

> 'Pan fyddan nhw gartref, dydyn nhw ddim yn cael y cyfle i gael hwyl a gwneud y ffrindiau hynny a'r agwedd lles sy'n... Rwy'n golygu, pan ddaethant yn ôl i'r ysgol, dywedwyd wrthym fel ysgol i wneud yn siŵr mai dim ond amser chwarae a gânt. Peidiwch â strwythuro gwers Addysg Gorfforol. Gadewch iddyn nhw gael chwarae'n rydd oherwydd dyna beth mae angen iddyn nhw ddal i fyny arno. Mae angen iddyn nhw ddal i fyny gyda'u ffrindiau a chael amser da a chael hwyl a chwarae. Felly, gwnaethom lawer o hynny, sydd wedi helpu'.

Mae'r pwyslais hwn ar gefnogaeth emosiynol a rhoi amser i bobl ifanc siarad am eu profiadau a'u sefyllfaoedd, wedi parhau i gyfnod adfer ar ôl y pandemig, lle mae dysgwyr wedi gallu cael gafael ar wasanaethau cwnsela a chymorth arbenigol, lle bo angen. Roedd profedigaeth deuluol yn ystod y pandemig wedi effeithio ar rai dysgwyr o gefndir ffoaduriaid hefyd, gan ychwanegu at eu profiadau trawmatig blaenorol.

#### 6.1.9 Bylchau sylweddol mewn gwybodaeth

Soniodd cyfranogwyr am fylchau sylweddol mewn sgiliau sylfaenol pan aeth dysgwyr yn ôl i'r ysgol, ac roedd pryderon ynghylch yr effeithiau hirdymor posibl ar wybodaeth a lefelau datblygu sgiliau dysgwyr. Gall hyn fod yn destun pryder penodol i'r rhai sydd eisoes â phroblemau iaith a llythrennedd. Pan aeth y dysgwyr yn ôl i'r ysgol, roedd yn rhaid i'r athrawon atgoffa eu hunain i ddechrau o'r dechrau.

> 'Fe wnaethon ni ein hatgoffa ein hunain i beidio â chymryd unrhyw beth yn ganiataol hefyd. Felly, pan ddaethom yn ôl, yn disgwyl i blant ar yr oedran hwn, ar y lefel hon, fod yn gwneud hynny, ac rydyn ni'n meddwl, na, dydyn ni ddim wedi gwneud hynny ers cymaint o amser yn yr ysgol, pam fydden nhw'n gwybod hynny? Ac felly, rydyn ni'n gorfod atgoffa ein hunain, mae'n ail natur i ni, ond yn sicr ddim iddyn nhw'.

Gwelwyd dirywiad amlwg hefyd mewn sgiliau iaith Saesneg ymysg dysgwyr sy'n ffoaduriaid, oherwydd yn ystod y cyfyngiadau symud yr oedd llawer ohonynt wedi cael eu trochi yn iaith eu cartref yn unig.

> 'Ac rwy'n meddwl nad ydyn nhw'n union lle dylen nhw fod. Ond gyda phlant EAL, rwy'n meddwl ei fod hyd yn oed yn fwy oherwydd bod ganddynt y bwlch iaith yn ogystal â'r bwlch dysgu. A doedden nhw ddim yn clywed y Saesneg gartref. Doedden nhw ddim yn cael mynediad at y llyfrau Saesneg ac yn y blaen'.

I’r rhan fwyaf o ddysgwyr sy’n ffoaduriaid, torrodd y pandemig ar gymorth emosiynol a bugeiliol a oedd yn cael ei ddarparu yn yr ysgol, ac roedd yr ymyriad hwn mewn cymorth yn arbennig o drafferthus i ymarferwyr sy’n gweithio gyda dysgwyr oed ysgol uwchradd, a oedd mewn rhai achosion wedi gadael yr ysgol heb strategaethau priodol ar gyfer cynlluniau gyrfa yn y dyfodol.  Nid yw’n glir beth yw effeithiau dileu’r cymorth hwn ar oedran mor allweddol.

> ‘Ac wedyn fe gawson ni’r sefyllfa o ran COVID, do. Ac yna ...fe wnaethon ni stopio. Wel, yn amlwg, doeddwn i ddim yn ei gweld hi gymaint.  Ac wedyn pan drodd yn16 oed, fe wnaeth hi adael, dydw i ddim yn gwybod. Rydw i’n teimlo’n drist ar fy mhen fy hun oherwydd fy mod i wedi gweithio’n galed iawn i siarad â hi, dim ond i’w chael hi...ac wedyn roedd hi’n mynd yno’.

## 6.2. Hyfforddiant, adnoddau ac asiantaethau allanol sydd eu hangen i gefnogi lles dysgwyr sy’n ffoaduriaid yng Nghymru

Mae llawer o’r awgrymiadau a’r argymhellion hyn yn cyfeirio at addysgu dysgwyr sy’n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru yn fwy cyffredinol, yn hytrach na dim ond yn ystod y pandemig, er y gallai’r tarfu a achoswyd gan Covid-19 fod wedi tynnu sylw at yr heriau ychwanegol sy’n gysylltiedig â gweithio gyda grwpiau o ddysgwyr agored i niwed a’u cefnogi. Mae dysgwyr sy’n ffoaduriaid yn grŵp penodol sydd ag anghenion cymhleth ac arbennig, ac wrth i nifer y ffoaduriaid gynyddu mewn ysgolion a cholegau ledled Cymru, mae angen cynyddol am hyfforddiant penodol er mwyn i ysgolion ac athrawon allu ymateb gyda dealltwriaeth a sensitifrwydd i’w sefyllfaoedd. Mae gan lawer o deuluoedd sy’n ffoaduriaid ddyheadau addysgol uchel ond maent wedi cael eu gorfodi i adael eu gwledydd eu hunain o dan amgylchiadau trawmatig; mae angen amser ar ddysgwyr i ddatblygu sgiliau iaith a dal i fyny ar addysg a gollwyd yn ogystal ag addasu i’r diwylliant newydd. Ysgolion ac athrawon yw rhai o’r cysylltiadau diwylliannol cyntaf a sefydlir, felly mae’r perthnasoedd a’r ymddygiadau hyn yn arbennig o arwyddocaol.

### 6.2.1. Hyfforddiant i weithio gyda dysgwyr sy’n ffoaduriaid

Un o’r prif heriau i ysgolion ac athrawon yw bod ffoaduriaid yn gallu cyrraedd y DU ar unrhyw adeg o’r flwyddyn academaidd oherwydd rhyfel a gwrthdaro yn eu gwledydd eu hunain ac mae angen darparu ar eu cyfer cyn gynted â phosibl. Ychydig iawn o rybudd a roddir i wasanaethau fel addysg a thai. Mae ffoaduriaid yn cyrraedd dan amgylchiadau anodd ac mae angen eu hailgartrefu a’u hail-addysgu’n gyflym, sy’n golygu bod ysgolion yn aml yn cael eu hunain mewn sefyllfa o ymateb i fewnlifiad sydyn o ffoaduriaid heb lawer o hyfforddiant, neu ymgynghori ag asiantaethau eraill. Tarfwyd ar rywfaint o’r gwaith hwn gan y pandemig ac mae’n dal i fynd rhagddo yn ystod y cyfnod ar ôl y pandemig.

> ‘Yn ystod mis Tachwedd, roedd gennym y fath fewnlifiad o ffoaduriaid heb unrhyw ddarpariaeth ar eu cyfer fel bod yr ysgol wedi penderfynu creu darpariaeth amgen iddynt, i roi digon o Saesneg iddynt fel y gallant gael mynediad i wersi prif ffrwd’.

Prin yw’r hyfforddiant sydd ar gael yn benodol ar gyfer ysgolion a staff, fel bod unigolion yn cael eu gadael i ganfod eu hymateb ar eu pen eu hunain gan amlaf.

> ‘Mynychais gynhadledd a oedd yn ymwneud â ffoaduriaid, felly unwaith eto, fe chwiliwyd am hynny, nid oedd yn cael ei roi i ni o reidrwydd am fod gennym ni ffoaduriaid.  Rydyn ni hefyd wedi chwilio am adnoddau, fel llyfrau a phethau eraill a fyddai’n helpu ffoaduriaid yn arbennig’.

Gall ysgolion benderfynu cyflogi cynorthwywyr addysgu dwyieithog neu gyflwyno cwricwlwm newydd i ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n ffoaduriaid, yn seiliedig ar eu gwybodaeth broffesiynol a'u dealltwriaeth o weithio gyda grwpiau eraill o fyfyrwyr sydd ag anghenion ychwanegol, yn ogystal ag ar gasglu gwybodaeth ac ymchwil penodol. Mae llawer o'r strategaethau hyn yn gweithio'n dda ac maent yn enghreifftiau o arferion da y gellir eu rhannu ar draws ysgolion yng Nghymru, fel bod ysgolion sydd â mwy o brofiad o addysgu dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn helpu i hyfforddi'r rhai sydd â llai o brofiad.

**6.2.2 Gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol mewn ysgolion**

Soniodd y cyfranogwyr am yr angen i ymgysylltu'n ystyrlon â diwylliannau cynhenid dysgwyr sy'n ffoaduriaid er mwyn hwyluso'r broses o bontio a galluogi dysgwyr eraill i ddysgu mwy am faterion byd-eang. Gellir integreiddio dathlu amrywiaeth poblogaeth y myfyrwyr i'r cwricwlwm gyda sensitifrwydd, ond efallai y bydd angen hyfforddiant ar athrawon i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i ddelio â rhyngweithio rhyngddiwylliannol mewn amgylcheddau amlddiwylliannol. Un awgrym oedd y dylid cynnwys mwy o hyfforddiant amrywiaeth mewn hyfforddiant athrawon a swyddi cyntaf athrawon newydd gymhwyso.

> 'Ac un o'r pethau y dechreusom siarad amdanynt yr wythnos hon oedd codi ymwybyddiaeth o rai o'r materion y mae ein disgyblion yn eu hwynebu, gyda disgyblion eraill. Mae'n ddigon posibl y byddai cael y math hwnnw o hyfforddiant ar gyfer y boblogaeth ysgol ehangach hefyd yn eithaf defnyddiol, y math hwnnw o addysg gymdeithasol. Felly, credaf fod creu'r ymwybyddiaeth honno'n rhywbeth yr hoffem ei ystyried fel ysgol. Mae angen iddynt ddeall ein diwylliant ac mae angen inni ddeall eu diwylliant nhw. Mae amrywiaeth yn fwy na chael posteri amlieithog yn y cyntedd'.

Mae rhai adnoddau sy'n delio â materion sy'n ymwneud â lloches, ffoaduriaid a cheiswyr lloches eisoes ar gael yn ystorfa Hwb a ddarperir gan Lywodraeth Cymru (hwb.gov.wales), ond gellir ategu'r rhain â deunyddiau a ddatblygwyd gan ysgolion ac ymarferwyr ar gyfer eu poblogaethau penodol.

**6.2.3 Mwy o ddarpariaeth EAL / ESOL**

Mae angen cyllid ychwanegol ar gyfer addysgu Saesneg mewn rhai ysgolion er mwyn recriwtio athrawon EAL / ESOL mwy arbenigol a Swyddogion Datblygu Addysgu EAL. Teimlwyd nad oes gan y ddarpariaeth bresennol y gallu i ddiwallu anghenion llawer o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid, sy'n aml yn cyrraedd Cymru heb fawr ddim Saesneg, neu ddim Saesneg o gwbl, yn ogystal â lefelau llythrennedd isel yn eu mamiaith. Mae addysgu Saesneg neu ESOL yn cael ei ystyried fel y porth i integreiddio a chynnydd yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yn cael cymorth iaith dwys mewn ysgolion pan fyddant yn cyrraedd, ond fel arfer mae'r cyllid yn cael ei dynnu'n ôl ar ôl cyfnod cychwynnol o ddwy flynedd er bod y dystiolaeth yn dangos bod llawer o ddysgwyr yn parhau i fod angen cymorth am amser hir ar ôl hyn (Schekens, 2019).

Byddai gwell parhad o ran trefniadau cyllido yn galluogi ysgolion i ddarparu mwy o gymorth, gan gynnwys datblygu cwricwla wedi'u teilwra'n arbennig a chymwysterau amgen. Un awgrym oedd defnyddio'r system Cynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer pob dysgwr sy'n ffoadur.

> 'Mae'r system IDP sydd gennym yn y wlad hon yn gynlluniau datblygu unigol. Bellach byddai'r system honno'n berffaith ar gyfer disgyblion statws ffoaduriaid, maent yn cyrraedd, ac i bob pwrpas nid oes ganddynt unrhyw Saesneg o gwbl. Felly, y peth yw, os byddwn wedyn yn penderfynu, fel awdurdod lleol, y bydd angen i'r

disgybl hwnnw gael mynediad at 20 awr o gymorth un-i-un, yna daw'r cyllid hwnnw'n syth i mewn i'r ysgol ac mae gan yr ysgol ddyletswydd i wario'r arian hwnnw ar brynu person i mewn'.

Mae rhywfaint o ddarpariaeth yng Nghymru i ddysgwyr Cymraeg sydd newydd gyrraedd fynd i ganolfan astudio am ddau fis a chael eu trochi'n llwyr. Nid oes yr un ddarpariaeth ar gyfer dysgu Saesneg er y gallai rhai dysgwyr sy'n ffoaduriaid elwa o hynny.

Un o ganfyddiadau allweddol yr astudiaeth hon oedd anghysondeb y ddarpariaeth rhwng ysgolion mewn gwahanol ardaloedd. Roedd hyn yn amrywio o ysgolion gydag un athro EAL ar gyfer ysgol uwchradd fawr gyda hyd at 140 o ddysgwyr o gefndir EAL, i dîm o bump neu chwech o arbenigwyr EAL mewn ysgolion eraill. Lle mae darpariaeth EAL yn gyfyngedig, gall dysgwyr sy'n ffoaduriaid fynychu sesiynau EAL mewn dosbarthiadau bach neu dderbyn darpariaeth un i un am hyd at bum awr yr wythnos. Ategir hyn gan gefnogaeth gan gynorthwywyr addysgu ac athrawon dosbarth, sy'n ceisio gwneud gwersi prif ffrwd mor hygyrch â phosibl.

Mewn ysgolion lle mae mwy o ddarpariaeth EAL, gellir darparu cwricwlwm ESOL wedi'i deilwra ar gyfer pob dysgwr sy'n newydd i'r Saesneg, gan gynnwys dysgwyr sy'n ffoaduriaid, am hyd at bymtheg awr yr wythnos, gyda gwersi Mathemateg a Gwyddoniaeth gwahaniaethol ychwanegol. Gall dysgwyr ddilyn y cwricwlwm pwrpasol hwn nes yr asesir bod ganddynt sgiliau iaith a llythrennedd digonol i ymuno â'r brif amserlen.

Mae cael digon o staff EAL/ESOL i ddarparu addysgu iaith ar lefelau gwahaniaethol yn hanfodol ac mae'n golygu bod dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn gallu cael cymorth dwys pan fydd ei angen fwyaf. Nid yw pob dysgwr yn gwneud cynnydd gyda dysgu iaith ar yr un cyflymder, ac efallai y bydd rhai yn barod i ailymuno â'r brif amserlen yn gynt nag eraill.

Yn aml nid yw'n cael ei ddeall yn iawn faint o amser y gall ei gymryd i ddysgwyr ennill sgiliau iaith digonol i allu ailymuno â darpariaeth prif ffrwd, a gallai athrawon a theuluoedd gael eu camarwain i feddwl bod sgiliau iaith lafar dysgwyr yn golygu eu bod yn barod ar gyfer cymwysterau academaidd.

> 'Ac oherwydd bod Saesneg ei rieni gartref yn sero... felly, mai ei Saesneg ef i'w rieni – maen nhw'n meddwl, 'O fy Nuw, mae ei Saesneg yn anhygoel!'

Gall ffactorau fel cefndir teuluol, oedran, cymhelliant a dysgu blaenorol i gyd gael effaith ar ganlyniadau. Mae gan lawer o ysgolion nifer fawr o ddysgwyr EAL/ESOL ac mae cydlynu gwasanaethau ar gyfer y dysgwyr hyn yn cymryd amser a gwaith paratoi. Gofynnodd ysgolion i gyd-drefnu darpariaeth EAL gael ei gydnabod fel darpariaeth ar wahân i ddarpariaeth ADY.

> 'Hoffwn weld cydlynwyr EAL yn cael rhyw fath o gydnabyddiaeth am wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud. A rhyddhau amser i wneud hyn gan eu bod yn gwneud hynny yn ogystal â dysgu'n llawn amser yn ogystal â bod ganddynt eu CPA eu hunain'.

Gall athrawon EAL/ESOL a Swyddogion Datblygu Addysgu hefyd gynnig hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon pwnc eraill mewn ysgolion i edrych ar wersi a deunyddiau drwy lens EAL ac i godi ymwybyddiaeth o gaffael iaith yn gyffredinol. Mae gan yr arbenigwyr hyn rôl bwysig o ran codi proffil dysgu iaith mewn ysgolion ac atgoffa'r holl staff mai cyfrifoldeb ysgol gyfan yw dysgu iaith.

> 'A rhan o'm rôl yw fy mod yn cefnogi athrawon prif ffrwd i'w huwchsgilio.  Felly, rhoddaf awgrymiadau iddynt ar yr hyn y gallem fod yn ei wneud, sut y gallwn ddatblygu'r cwricwlwm'.

**6.2.4 Gwell sgrinio a gwybodaeth gefndir**

Pwysleisiodd pawb a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon ei bod yn hollbwysig bod ysgolion ac athrawon yn cael gwybodaeth fanylach am gefndir dysgwyr sy'n ffoaduriaid pan fyddant yn cyrraedd. Mae dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn dod o wahanol systemau addysgol, yn aml ar ôl treulio nifer o flynyddoedd yn mudo, ac wedi colli rhannau helaeth o'u haddysg. Mae anawsterau cyfathrebu yn ei gwneud yn anodd i ysgolion nodi anghenion emosiynol neu ddysgu ychwanegol, a gallai fod yn flynyddoedd cyn i ddysgwyr sy'n ffoaduriaid allu mynegi eu hanghenion eu hunain. Gofynnwyd am well sgrinio a chysylltiadau â gwasanaethau adsefydlu lleol.

> 'Oherwydd mai ychydig iawn o wybodaeth sydd gennym am y sefyllfaoedd y mae ein disgyblion sy'n ffoaduriaid yn dod ohonynt, dydyn ni ddim yn gwybod a ydyn nhw'n dod i'r ysgol gydag anhwylder straen wedi trawma.  Nid oes gennym syniad o rai o'r trawmâu y gallent fod wedi'u dioddef, y pethau y gallent fod wedi'u gweld, na difrifoldeb hynny. Gallwn roi cefnogaeth ar waith – ond i rywun sydd wedi dod i Gymru sy'n siarad dim Saesneg, dim Cymraeg, ac sydd wedi dod o wlad o ryfela neu beth bynnag, ac a allai fod wedi bod yn byw mewn gwersyll ffoaduriaid, boed hynny yng Ngogledd Ffrainc neu rywle arall – dydyn ni ddim yn gwybod'.

Mae gwybodaeth am gefndir teuluol, lefelau llythrennedd, anghenion meddygol neu seicolegol yn cael ei chyfleu cymaint â phosibl drwy ddehonglwyr, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu dwyieithog, brodyr a chwiorydd, neu ffrindiau gyda sgiliau Saesneg gwell, er bod hyn yn aml yn annibynadwy ac yn amhroffesiynol. Dylid trin manylion preifat am ddysgwyr a'u teuluoedd gyda sensitifrwydd a pharch. Efallai na fydd lleisiau ac anghenion dysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd yn cael eu cyfleu'n briodol yn y modd hwn.

> 'Llawer o'r amser rydych chi'n mynd drwy ddehonglwyr ac weithiau pobl dros y ffôn, dydyn nhw ddim eisiau datgelu popeth, dydyn nhw ddim eisiau lleisio eu hanawsterau yn gyhoeddus, llawer o'r amser maen nhw'n mynd drwy ffrindiau ac efallai fod rhai pethau nad ydyn nhw eisiau eu rhannu'.

**6.2.5 Nodi Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae adnabod anghenion ychwanegol ar y cyfle cyntaf yn golygu bod dysgwyr yn cael y swm priodol a'r mathau priodol o gymorth ychwanegol. Mae'n anodd adnabod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn enwedig pan nad yw dysgwyr yn gallu defnyddio ieithoedd prif ffrwd, felly mae'n hawdd iawn eu methu. Gall hyn olygu nad yw rhai dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn cael y cymorth addysgol ychwanegol a fyddai'n eu galluogi i wneud cynnydd gyda dysgu a chymwysterau. Gall hefyd fod yn anodd i deuluoedd a dysgwyr fynegi eu pryderon. O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) mae gofyniad cyfreithiol i rieni a phobl ifanc fod yn rhan o bob penderfyniad ynghylch ADY, ac mae'n bwysig bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Ar hyn o bryd, yn aml nid oes modd i leisiau teuluoedd ffoaduriaid gael eu clywed yn iawn, sy'n gallu golygu gwahaniaethu pellach rhwng dysgwyr sy'n ffoaduriaid sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

> 'Mae angen cyfle i leisiau'r teuluoedd hyn gael eu clywed yn yr ysgol, boed hynny'n rhieni neu'n ddisgyblion eu hunain ac er bod gennym wasanaethau yn yr ysgol, lle

> gall rhieni a disgyblion godi amrywiaeth o faterion, os yw'r iaith yn rhwystr, yna'n awtomatig, byddwn yn awgrymu bod y drws hwnnw ar gau'.

Ar hyn o bryd, nid yw EAL yn cael ei ystyried yn Angen Dysgu Ychwanegol, ond mewn llawer o achosion mae'n rhwystr mawr i fyfyrwyr sy'n ffoaduriaid gael mynediad at y cwricwlwm a chael addysg briodol. Yn aml iawn, mae'n anodd iawn i athrawon neu weithwyr cymorth ddeall beth sy'n achosi anawsterau.

> 'Cymerodd o leiaf, byddwn i'n dweud, hanner, hanner blwyddyn nes iddi siarad gyda mi. Fe fyddwn i'n eistedd gyda hi. Ni fydd yn siarad â neb. Dydy hi ddim eisiau siarad. Roedd yna stori fawr y tu ôl i hynny, y tu ôl i'r ferch. Ond rydw i'n dweud wrth ei thad, alla i ddim ei helpu os nad ydw i'n gwybod beth sy'n digwydd, pam nad ydi hi eisiau siarad â mi, pam nad ydi hi eisiau i mi fod gyda hi'.

**6.2.6 Mwy o bwyslais ar gefnogaeth emosiynol a bugeiliol mewn ysgolion**

Yn ogystal â nodi anghenion dysgu, nid yw effeithiau emosiynol trawma a dadleoli ar ddysgwyr a'r amser a gymerir i fynd i'r afael â'r materion hyn yn aml yn cael eu deall yn ddigonol gan y rhai sy'n gweithio gyda ffoaduriaid.

> 'Rydych chi newydd gael eich cloi allan o'ch gwlad heb wybod ble rydych chi'n mynd ac yna'n cyrraedd, a gallai gael dylanwad mawr iawn ar faint o amser mae'n ei gymryd i blentyn deimlo gartref, yn cael ei gymhathu. A dwi'n meddwl bod y plant hyn sy'n ffoaduriaid, unwaith maen nhw'n dechrau cyfathrebu, dim ond wedyn rydych chi'n sylweddoli lle mae'r trawma. Ac mae'r trawma hwnnw'n parhau, ac wedyn rydych chi'n meddwl ein bod ni'n colli blynyddoedd yn aros iddyn nhw allu cyfathrebu a dydyn ni ddim yn cael y mynediad hwnnw yn eu hiaith nhw chwaith.

Gofynnodd ysgolion am fwy o hyfforddiant i staff ar adnabod arwyddion o drawma a defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar drawma mewn ystafelloedd dosbarth. Mae gan lawer o ysgolion Gynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) neu rywun sydd wedi cwblhau hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma, ond nid oes digon o'r gweithwyr proffesiynol hyn sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i ddelio â'r materion bugeiliol niferus sy'n codi mewn ysgolion mwy. Mae cwnselwyr myfyrwyr ac ymarferwyr iechyd meddwl yn mynychu ysgolion yn rheolaidd, er bod yr arbenigwyr hyn fel arfer yn rhugl yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unig. Defnyddir cynlluniau cyfeillio mewn rhai ysgolion fel bod dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn cael eu paru â chyd-fyfyrwyr i ddysgu am systemau'r ysgol. Mae tystiolaeth bod cynlluniau cyfeillio o'r fath yn gallu arwain at fanteision sylweddol i'r ddwy ochr, i ddysgwyr agored i niwed a'r rheini sydd â rôl mentoriaid, yn enwedig o ran hyrwyddo llesiant a hwyluso profiadau addysgol cadarnhaol (Tzani-Pepelisi et al., 2019).

Nid yw effaith rhyfel, chwalfa bywyd a gorfod ffoi o'ch gwlad eich hun yn cael ei deall yn iawn, ond dywedwyd bod rhai dysgwyr sy'n ffoaduriaid bob amser yn wyliadwrus, fel pe bai angen iddynt amddiffyn eu hunain yn yr ysgol. Bu cyfranogwyr yn dyfalu ynghylch rhai o effeithiau posibl byw mewn gwersylloedd ffoaduriaid.

> 'Ond dydw i ddim yn gwybod a yw'n faer o arfer byw yn y gwersylloedd ffoaduriaid, maent yn dalsyth, maen nhw bob amser yn wyliadwrus. Byddan nhw'n brwydro i amddiffyn eu hunain – rydyn ni wedi cael rhai digwyddiadau lle maen nhw wedi, maen nhw wedi bod yn cwffio. Ond dwi'n meddwl weithiau bod yna deimlad ymysg rhai o'r plant prif ffrwd'.

Mae gan bynciau llesiant ac iechyd meddwl le canolog yn y cwricwlwm newydd yng Nghymru (Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), 2021) lle mae pob dysgwr yn cael ei annog i ddeall eu hanghenion emosiynol ac iechyd meddwl eu hunain ac anghenion iechyd meddwl pobl eraill yn well, yn ogystal â ffyrdd o gael gafael ar gymorth lle bo angen. Mae sicrhau bod y sgyrsiau hyn yn hygyrch drwy ieithoedd grwpiau lleiafrifol yn amlwg yn gam nesaf pwysig.

> ‘Mae ein holl gefnogaeth yn cael ei hysbysebu drwy’r ysgol, ac mae gennym waliau lles, ac mae gan y waliau lles hyn strwythur a phatrwm tebyg ar draws yr ysgol, felly ni waeth ym mha adeilad rydych chi, byddwch yn cerdded heibio i un o’r waliau hyn sy’n dweud, ‘Os oes gennych chi broblem, ewch i weld y ddynes yma. Os ydych chi’n cael eich bwlio, ewch i weld y person hwn’. Ond mae’r byrddau hynny i gyd o gwmpas yr ysgol ond wrth gwrs yr iaith y maent wedi’u hysgrifennu ynddi yw’r Gymraeg a'r Saesneg’.

**6.2.7 Gwell mynediad at wasanaethau cyfieithu**
Gofynnodd yr ysgolion am gymorth i gyfieithu gwybodaeth allweddol i ieithoedd lleiafrifol. Mewn rhai ardaloedd lle ceir mwy o amrywiaeth, mae cynghorau lleol eisoes yn darparu gwasanaethau cyfieithu canolog lle bo angen, ond nid yw’r gwasanaeth hwn ar gael yn gyson i bob ysgol. Dylai dogfennau derbyn a pholisi ysgolion, adroddiadau cynnydd, a gwybodaeth am ddigwyddiadau, fod ar gael ym mhob iaith y cartref, ac wedi’u teilwra ar gyfer dysgwyr o bob cefndir. Nid yw apiau bob amser yn briodol nac yn hawdd eu defnyddio ac yn aml nid ydynt ar gael mewn ieithoedd lleiafrifol.

> ‘Does dim gwasanaeth cyfieithu ar gyfer ysgolion, felly mae unrhyw beth rydyn ni’n ei anfon at rieni naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, felly yn anffodus bydd ein disgyblion sy’n ffoaduriaid yn cael gohebiaeth o’r ysgol, yn electronig, mae’n dod drwy ap, ond bydd yn Gymraeg neu’n Saesneg, does dim gwasanaeth cyfieithu ar gyfer rhoi pethau mewn Arabeg, ac os ydych chi erioed wedi ceisio defnyddio pethau fel Google Translate, ni fyddant byth yn briodol ac ni fyddant yn gweithio’.

Efallai fod 40-50 o ieithoedd wedi’u cynrychioli yn eu poblogaeth o fyfyrwyr yn ogystal â theuluoedd â lefelau llythrennedd isel, felly mae cynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau hawdd eu cyrraedd ar gyfer yr holl grwpiau hyn yn gryn her. Yn aml nid yw teuluoedd dysgwyr sy’n ffoaduriaid yn ymwybodol o sawl agwedd ar system addysg y DU, gan gynnwys y mathau o bynciau, arholiadau ac opsiynau gyrfa ar gyfer eu plant.

**6.2.8 Mynediad i Addysg Uwch ac Addysg Bellach**
Mae monitro canlyniadau dysgwyr sy’n ffoaduriaid yn hanfodol er mwyn gwybod sut mae anghenion yn cael eu diwallu ac i ymchwilio i’r rhwystrau i addysg bellach. Mae gan y grŵp hwn o ddysgwyr anghenion sylweddol ac ychwanegol o’u cymharu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig neu ddifreintiedig eraill: addysg fylchog, rhwystrau iaith, a’r anhawster o ganfod anghenion dysgu ychwanegol posibl, sy’n golygu, er gwaethaf cymhelliant a dyheadau’r teulu i fynd ymlaen i addysg uwch, bod llawer o ddysgwyr sy’n ffoaduriaid yn cael trafferth gyda threfn brofi system addysg y DU ac yn methu â chael y cymwysterau TGAU a Safon Uwch angenrheidiol sy’n ofynnol i’w derbyn i’r brifysgol (Gateley, 2015; More; Brown; a Collier, 2020).

Ystyrir bod cymwysterau TGAU mewn Saesneg a Mathemateg yn feincnod y dylai pob dysgwr ei gyrraedd, ond hyd yn oed pan fydd ffoaduriaid yn cyrraedd ym mlynyddoedd 8 neu 9 mae’n aml yn rhy hwyr iddynt ennill y sgiliau iaith angenrheidiol i lwyddo gyda graddau da mewn TGAU, ac felly i bontio i gymwysterau Safon Uwch, a’r brifysgol. Hyd yn

oed ar ôl sawl blwyddyn o gefnogaeth iaith ddwys, mae llawer yn dal i gael trafferth darllen ac ysgrifennu yn Saesneg.

> ‘Rydw i’n dal i gyfathrebu â nhw weithiau, ac maen nhw’n dal i gael trafferth gyda’u hysgrifennu a’u darllen hefyd. Maen nhw’n bwysig iawn, oherwydd yn yr ysgol mae angen i chi wella eich sgiliau ysgrifennu a darllen, nid siarad yn unig. Mae siarad yn sicr yn bwysig iawn ond y peth pwysicaf yn yr ysgol yw ysgrifennu a darllen, mae angen i chi ddysgu iaith ffurfiol, geiriau penodol.’

Er mwyn gallu astudio ar gyfer Safon Uwch, mae angen i’r rhan fwyaf o ddysgwyr gael o leiaf pum gradd C TGAU, a gall gymryd blynyddoedd i rai dysgwyr gael digon o sgiliau Saesneg a sgiliau sylfaenol eraill i astudio ar lefel Safon Uwch. Mewn rhai achosion, mae rhieni a theuluoedd yn dal i obeithio y gall eu plant fynd i’r brifysgol hyd yn oed pan fo eu sgiliau iaith yn annigonol. Mae angen i drafodaethau rhwng ysgolion a theuluoedd fod yn realistig, gan ystyried sgiliau iaith, ond hefyd darparu opsiynau ysbrydoledig ac ysgogol, ar wahân i’r brifysgol.

> ‘Roedd ei dad yn gobeithio y byddai’n mynd i’r brifysgol. Dywedaf wrtho nad oes dim o’i le ar eich plentyn.  Mae’n fachgen clyfar iawn, iawn.  Mae’n fachgen clyfar iawn. Ond y rhwystr iaith, fyddwn yn ei ddweud, pe bai’n dod yma’n gynnar, mae’n debyg y byddai’n gallu gwneud hynny. Ond yr hyn y gallwn ei wneud, hyd nes y daw’n amser TGAU, bydd ei Saesneg yn ... mae’n debyg y bydd yn dderbyniol ar gyfer mynd i’r coleg a dysgu ar gyfer y...cario ymlaen gyda’r trin gwallt’.

Mewn rhai achosion, hyd yn oed os yw dysgwyr yn ennill cymwysterau Safon Uwch, nid ydynt yn gallu cael cyllid myfyrwyr os ydynt wedi bod yn y wlad am lai na 5 mlynedd. Mae llawer o ddysgwyr sy’n ffoaduriaid yn parhau â’u haddysg mewn colegau lleol, er gwaethaf eu dyheadau cynharach neu uchelgeisiau cynharach eu teuluoedd, a dylid gwneud cysylltiadau gwell rhwng teuluoedd, ysgolion a cholegau, fel bod yr opsiynau’n cael eu cyfleu’n glir yn gynnar.

Mae llawer o’r canfyddiadau yn yr astudiaeth hon ar raddfa fach yn cyd-fynd yn dda â chanfyddiadau mewn mannau eraill. Maent yn ymwneud â gwelliant mewn hyfforddiant ac adnoddau i ymarferwyr sy’n gweithio gyda ffoaduriaid yn gyffredinol, ac nid dim ond ar gyfer y pandemig neu ar ôl y pandemig. Fel mewn astudiaethau cynharach (Arnot a Pinson, 2005; Bissutti et al. 2020; Primdahl et al. 2021), pwysleisiodd cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon yr angen am ddull mwy cyfannol o addysgu a chefnogi dysgwyr sy’n ffoaduriaid, sy’n ystyried eu hanghenion cymdeithasol, dysgu ac emosiynol amrywiol. Mynegasant bryderon ynghylch y problemau o ran asesu anghenion dysgwyr ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd, yn rhannol oherwydd rhwystrau iaith a diffyg gwybodaeth gefndir. Mae angen gwell mynediad at wasanaethau cyfieithu, a hyfforddiant staff i ddelio â thrawma ac effeithiau eraill ymfudo dan orfod, fel sydd wedi cael ei drafod mewn mannau eraill (Taylor a Sidhu, 2012; Bissutti et al, 2020). Mae angen cydnabod a chefnogi’r amser ychwanegol sydd ei angen ar ddysgwyr sy’n ffoaduriaid i ddatblygu sgiliau iaith a llythrennedd digonol er mwyn gallu cymryd rhan mewn rhaglenni prif ffrwd drwy gynyddu darpariaeth EAL/ESOL a mwy o drefniadau cyllido.

## 6.3 Strategaethau dosbarth/ysgol gyfan i gefnogi addysgu a dysgu plant a phobl ifanc sy’n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru.

Mae’r adran hon yn amlinellu rhai o strategaethau’r ystafell ddosbarth a’r ysgol gyfan sy’n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan ymarferwyr yn eu gwaith gyda dysgwyr sy’n ffoaduriaid

mewn ysgolion yng Nghymru. Roedd llawer o’r strategaethau hyn ar waith cyn i gyfyngiadau symud Covid-19 ddod i rym ac roeddent yn dal i gael eu defnyddio yn ystod ac ar ôl y pandemig. Maent yn cynrychioli arbenigedd ac ymrwymiad penaethiaid, athrawon a gweithwyr cefnogi i gefnogi dysgu ac addysgu dysgwyr sy’n ffoaduriaid mewn ysgolion ledled Cymru. Er bod y pandemig a chau ysgolion wedi ei gwneud yn fwy anodd gweithredu rhai o’r strategaethau hyn, roedd y rhai a gyfwelwyd yn awyddus i rannu manylion eu haddasiadau, yn enwedig y rhai a oedd yn ymddangos yn llwyddiannus, ac yn teimlo y byddai’n werth rhannu eu profiadau gydag ysgolion eraill sydd â llai o brofiad o weithio gyda ffoaduriaid.

Mae strategaethau i gefnogi dysgwyr sy’n ffoaduriaid ifanc mewn ysgolion cynradd yn cynnwys cymryd amser i wrando a gwneud yn siŵr eu bod yn teimlo’n gartrefol ac yn ddiogel.

> ‘Pobl ydyn ni gyda nhw. Nid ydym yn awdurdodaidd gyda hwy. Maent i’w croesawu. Mae’r plant yn eu croesawu. Felly, y teimlad hwnnw eu bod yn ddiogel a dyna sut mae pawb yn siarad â nhw. Mae pawb yn rhoi trefn ar bethau. Dydyn ni ddim yn rhuthro unrhyw beth, felly dydyn ni ddim yn brysio drwy unrhyw broblemau sydd ganddyn nhw. Os oes ganddynt broblem, ymdrinnir â hi nes eu bod yn hapus ei bod yn cael sylw ac mae hynny'n cymryd llawer iawn o amser, ond mae pawb yn gwneud hynny yn yr ysgol. Wyddoch chi, o’r holl staff cymorth – yr holl ffordd drwodd, mae amser yn cael ei roi fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael croeso, maen nhw’n teimlo’n gartrefol yma’.

### 6.3.1 Cymorth EAL ychwanegol

Roedd sicrhau bod digon o gefnogaeth o’r cychwyn cyntaf fel bod dysgwyr sy’n ffoaduriaid yn gallu dysgu ieithoedd a setlo yn eu hamgylchedd newydd hefyd yn cael ei ystyried yn strategaeth allweddol, ac mewn sawl achos, roedd ysgolion yn ffodus o allu cyflogi gweithwyr cymorth Arabeg a Pashto i helpu gyda’r newid hwn. Byddai gweithwyr cymorth sy’n siarad ieithoedd eraill hefyd wedi bod yn ddymunol, ond nid oeddent ar gael.

> ‘Maen nhw’n deall beth sy’n digwydd. Ac os ydyn nhw’n cael yr adnoddau, yn enwedig y syniad o gael rhywun wrth eich ymyl sy’n gallu esbonio beth sy’n digwydd. Eisteddodd y gweithiwr cymorth a’r ysgol yn y canol gyda’r plentyn gan helpu popeth o’r tu allan, felly teimlai’r teuluoedd fod ganddynt gysylltiadau, ac roeddent yn gwybod beth oedd yn digwydd’.

Mewn rhai ysgolion yng Ngogledd Cymru, roedd y gweithwyr cymorth dwyieithog hefyd yn dysgu Cymraeg mewn ystafelloedd dosbarth ochr yn ochr â’r ffoaduriaid ac yn gallu cysylltu â theuluoedd y tu allan i’r ysgol.

> ‘Roedden nhw’n mynd i’r un mosgiau fel eu bod nhw’n gallu trafod pethau yno mewn ffordd anffurfiol’.

Caiff dysgwyr sy’n ffoaduriaid eu hasesu ar gyfer lefel iaith Saesneg a’u gallu cyffredinol pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol uwchradd, yn eu hiaith eu hunain, os oes modd. Dyrennir cymorth iaith dwys i’r rhai sydd â’r angen mwyaf, a gall dysgwyr sy’n gwbl newydd i’r Saesneg gael eu tynnu o wersi heb fod yn rhai craidd am hyd at bum sesiwn yr wythnos. Mae’r lefel hon o gefnogaeth yn cael ei lleihau ar ôl y cyfnod cychwynnol, ond gall dysgwyr barhau i gael cymorth am 2-3 blynedd.

Efallai y bydd rhai dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn cael eu dyrannu i ddosbarthiadau lle mae siaradwyr eraill o'r un iaith neu'n cael eu rhoi mewn setiau academaidd is i ddechrau lle mae cymorth ychwanegol ar gael, i ganolbwyntio ar sgiliau a chysyniadau iaith sylfaenol cyn symud i grwpiau uwch.

> 'Mae gennym ddosbarth arbenigol hanner maint sy'n delio â disgyblion sydd â llythrennedd isel iawn, waeth a yw'n llythrennedd isel oherwydd angen dysgu ychwanegol neu lefelau llythrennedd isel neu lefel isel o Saesneg'.

Er bod hyn yn ddefnydd dealladwy o adnoddau ac mae cefnogaeth dosbarth bach yn werthfawr, mae gan y dysgwyr hyn anghenion penodol ac ar wahân y mae angen eu cydnabod, a gall yr arfer hwn weithiau arwain at y canlyniad anffodus o wneud i ddysgwyr ildio eu dyheadau addysgol.

> 'Roeddent yn frwdfrydig iawn am ddod i'r DU, am ddod i mewn i system addysg Prydain, ac yna i gael eu rhoi mewn grŵp is, rydych chi bron yn eu gweld nhw'n diffodd am eu bod yn gallu gweld beth sy'n digwydd'.

Gall asesu anawsterau iaith ac anghenion dysgu ychwanegol fod yn broblem, yn enwedig gyda'r dysgwyr hynny sy'n ffoaduriaid sydd wedi colli blynyddoedd o addysg mewn gwersylloedd ffoaduriaid, ac nad yw eu rhieni'n gallu cyfathrebu'n rhugl ag ysgolion. Mae llawer o ddysgwyr o gefndir ffoaduriaid yn gallu datblygu sgiliau iaith digonol i gyfathrebu â chyfoedion ac integreiddio â chymuned yr ysgol ond maent yn dal i gael trafferth gyda phynciau academaidd a geirfa dechnegol am amser hir. Disgwylir i rai dysgwyr fynychu gwersi Gwyddoniaeth, Mathemateg, Saesneg, Cymraeg a phynciau eraill bron o'r dechrau, er nad oes ganddynt lawer o ddealltwriaeth o eirfa sylfaenol. Mae hyn yn amlwg yn faich sylweddol, a soniodd un cyfranogwr am ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yn cael eu rhoi i eistedd yng nghefn y dosbarth am sawl blwyddyn, ddim yn siarad unrhyw Saesneg a ddim yn deall beth oedd yn digwydd.

> 'Mae llawer o blant yn eistedd ar y cefn.  Pan gyrhaeddais i yma y tro cyntaf, roedd yna ferched oedd wedi bod yma ers tua dwy flynedd yn siarad ychydig iawn o Saesneg, ac roedden nhw'n arfer bod yng nghefn yr ystafell ddosbarth.  Felly, sylweddolom fod angen i hynny newid'.

**6.3.2 Cwricwla/ Cymwysterau ESOL wedi'u teilwra**

I oresgyn y broblem hon, mae rhai ysgolion wedi datblygu amserlen ESOL amgen ar gyfer dysgwyr sy'n ffoaduriaid ac eraill sy'n newydd i'r Saesneg. Mae hyn yn caniatáu i ddechreuwyr a'r rheini sydd â Saesneg cyfyngedig dreulio amser yn canolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau iaith sylfaenol cyn y disgwylir iddynt ymdopi â geirfa arbenigol pwnc a sgiliau academaidd uwch eraill sy'n ofynnol yn yr amserlen brif ffrwd.

> 'Tîm o tua pump neu chwech yn yr adran EAL ac mae gennym ddarpariaeth ar wahân – ac maent yn cael 10 gwers ESOL gydag (athro ESOL) bob wythnos, 20 bob pythefnos ac wedyn mae ganddynt 5 gwers Saesneg ychwanegol ar ben hynny. Yn y bôn, mae'n 12 wythnos o geisio eu cael, rhoi digon o iaith a hyder iddynt fynd i ddosbarthiadau prif ffrwd a gallu ffynnu yn y bôn'.

Caiff dysgwyr eu hailasesu bob tymor i benderfynu a ydynt yn barod i ymuno â dosbarthiadau prif ffrwd a gallent wedyn gael cynnig amserlen lai yn ogystal â mwy o ddosbarthiadau ESOL.

‘Felly, er enghraifft, roedd gennym dri disgybl a oedd, ar ddechrau’r tymor hwn, yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr, yn teimlo bod eu Saesneg yn rhy dda i fod yn eu cadw yn ein dosbarth ESOL, ond ddim yn ddigon da i gael eu taflu i’r pen dwfn yn llwyr.  Felly, maen nhw’n mynd i fathemateg gyda phawb arall, yna maen nhw’n mynd i dri phwnc gwyddonol ac yna mae ganddyn nhw un opsiwn TGAU’.

Ystyrir bod cymwysterau TGAU mewn Saesneg a Mathemateg yn feincnod y dylai pob dysgwr ei gyrraedd, ond hyd yn oed pan fydd ffoaduriaid yn cyrraedd ym mlynyddoedd 8 neu 9 mae’n aml yn rhy hwyr iddynt ennill y sgiliau iaith angenrheidiol i lwyddo gyda graddau da mewn TGAU, ac felly i bontio i gymwysterau Safon Uwch, a’r brifysgol.  Hyd yn oed ar ôl sawl blwyddyn o gefnogaeth iaith ddwys, mae llawer yn dal i gael trafferth darllen ac ysgrifennu yn Saesneg.

‘Rydw i’n dal i gyfathrebu â nhw weithiau, ac maen nhw’n dal i gael trafferth gyda’u hysgrifennu a’u darllen hefyd. Maen nhw’n bwysig iawn, oherwydd yn yr ysgol mae angen i chi wella eich sgiliau ysgrifennu a darllen, nid siarad yn unig. Mae siarad yn sicr yn bwysig iawn ond y peth pwysicaf yn yr ysgol yw ysgrifennu a darllen, mae angen i chi ddysgu iaith ffurfiol, geiriau penodol.’

Mae gofynion arholiadau a chwricwla TGAU yn golygu, pa mor galed bynnag y mae rhai dysgwyr yn gweithio ar eu sgiliau Saesneg, y byddant yn dal i fethu cael graddau da:

“Mae’n gweithio mor galed ag y gall, ac mewn gwirionedd, efallai y bydd yn cael E ar y diwedd – mae’n eithaf digalon, ond mae E yn llwyddiant – dydyn nhw ddim yn mynd i gyrraedd C eto oherwydd nad ydyn nhw wedi cael yr amser – amser sydd ei angen arnynt”. Hefyd, dim ond mewn un haen y mae arholiadau Iaith Saesneg ar gael erbyn hyn, felly “Rydych chi mewn sefyllfa lle nad yw rhai o’r myfyrwyr yn deall y cwestiynau hyd yn oed.’

Efallai y bydd angen amser ychwanegol ar ddysgwyr sy’n ffoaduriaid i gyrraedd safon TGAU, ac mewn sawl achos byddent yn elwa o gael amserlen ysgafnach, gyda llai o arholiadau. Yn aml, nid yw’n bosibl cael cwricwlwm wedi’i deilwra mewn ysgolion oherwydd materion staffio, sy’n golygu bod dysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau na allant ymdopi â nhw mewn gwirionedd.

‘Pwy sy’n mynd i fod gyda nhw’n gorfforol, ac amserlennu, a beth ydyn ni’n ei gynnig iddyn nhw.  Fyddan nhw ddim yn gallu bob gyda fi. Maen nhw’n gwneud llawer mewn gwirionedd, maen nhw’n gwneud o leiaf wyth, ac wedyn i gyrraedd y chweched dosbarth maen nhw angen o leiaf pum C, ond mewn gwirionedd nid yw mynd i’r chweched dosbarth gyda phum C mor dda â hynny, ac mae’n debyg na fydd rhai adrannau’n eu derbyn’.

Her ychwanegol yw pan fydd dysgwyr sy’n ffoaduriaid yn cyrraedd ysgolion hanner ffordd drwy flynyddoedd 10, 11 neu 12, pan fydd cymwysterau TGAU a Safon Uwch eisoes ar waith, ac mae rhywfaint o waith cwrs eisoes wedi’i gwblhau.

‘Rydyn ni’n derbyn plant bob rhyw wythnos ac maen nhw’n dod i mewn yn rhy hwyr i wneud y cwrs.  Mae rhai plant yn meddwl eu bod yn gallu cael gafael ar hyn efallai, ond mae’n rhy hwyr i ddal i fyny â rhywbeth fel Mice and Men gyda holl slang Americanaidd.  Mae’n amhosib’.

Mewn rhai achosion, cynigir cymwysterau ESOL lle mae dysgwyr wedi cyrraedd yn rhy hwyr i ddilyn rhaglenni TGAU Saesneg.

> ‘Felly, i’r disgyblion a fyddai ar Fand A, mor gwbl newydd, does dim modd iddyn nhw gael mynediad i wersi TGAU, mae rhyw hanner eu hamserlen yn datblygu i fod yn ESOL wythnosol, felly mae’n gwrs ESOL. Rydyn ni’n ceisio eu cael i gyd ar gymwysterau ESOL cyn uched â phosibl, felly maen nhw’n dechrau sefyll eu harholiadau ar gyfer hynny yn ystod y misoedd nesaf’.

Y nod yw cael dysgwyr i fyny at Lefel Mynediad 3 neu Lefel 1 ESOL cyn iddynt adael ysgolion fel y gallant wedyn fynd i golegau Addysg Bellach lleol a dilyn rhaglenni galwedigaethol yn ogystal ag ESOL (ESOL+). Cynigir cymwysterau OCR ychwanegol mewn rhai ysgolion, yn lle TGAU.

> ‘Os nad ydyn nhw’n cael lefel un neu lefel Mynediad tri, yna mae’n rhaid iddyn nhw wneud dwy flynedd arall o ESOL, sydd i nifer o ddisgyblion, yn hynod ddiflas. Os gallwn eu cael i’r lefel honno, gallant wneud ESOL a lletygarwch, ESOL ac arlwyo oherwydd bod ganddynt ychydig mwy o gyfle amrywiol ehangach’.

Mae rhai ysgolion hefyd yn cynnig cwricwlwm ESOL ochr yn ochr â Safon Uwch. Mae cael strategaeth hyblyg fel y gall dysgwyr gyfuno ESOL ag opsiynau eraill yn golygu bod ysgolion yn cadw’r posibilrwydd o addysg bellach ac uwch yn agored.

**6.3.3 Cynorthwywyr Addysgu Dwyieithog (BTA)**

Cyflogir cynorthwywyr addysgu dwyieithog (Arabeg/ Saesneg neu Pashto/ Saesneg) fel mater o bolisi mewn rhai ysgolion, yn fwy ar hap mewn ysgolion eraill, ond gall yr aelodau staff hyn weithredu fel pont hanfodol rhwng teuluoedd ffoaduriaid, ysgolion a sefydliadau allanol. Mae cynorthwywyr addysgu dwyieithog yn gweithio’n agos gyda theuluoedd ffoaduriaid dros nifer o flynyddoedd a’u rôl yw helpu dysgwyr sy’n ffoaduriaid i ymgartrefu yn eu hamgylchedd newydd, datblygu hyder, a dysgu cyfathrebu gyda chyd-fyfyrwyr ac athrawon. Yn aml, mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth o gefndiroedd diwylliannol ac addysgol teuluoedd sy’n ffoaduriaid, ac mae gan rai brofiad personol o fod yn ffoaduriaid eu hunain.

> ‘Mae’n system newydd sbon ond mae llawer o’n teuluoedd wedi bod, rhai ohonynt wedi bod am bum, chwe blynedd mewn gwersylloedd ac yn y blaen. Felly, mae’r system addysg gyfan yn gwbl newydd i rieni ac mae angen ei hegluro. Ac mae’n cymryd tipyn o amser i setlo. Rydw i’n meddwl y bydd hi’n llawer haws cael LSA, yn enwedig siaradwr Arabeg, oherwydd bydd yn gwybod beth yw eu cefndir, eu meddylfryd, sut maen nhw’n meddwl.’

Mae cael cefnogaeth athrawon/cynorthwywyr addysgu o’r un cefndir ieithyddol a diwylliannol yn ddefnyddiol iawn, er bod hyn yn amlwg yn heriol i’w ddarparu’n ymarferol o ystyried bod y cyflenwad yn gyfyngedig. Rhoddwyd lwfansau ariannol hael i rai ysgolion ar flaen y gad wrth i lywodraethau ymateb i’r Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed, ac roedd pwyslais mewn rhai ardaloedd ar gael pethau’n iawn o’r cychwyn cyntaf. Golygai hyn y gellid cyflogi cynorthwywyr addysgu dwyieithog yn llawn amser mewn rhai ysgolion ac y gallent gefnogi dysgwyr unigol am hyd at ddwy flynedd.

> ‘Ni oedd yr ysgol gyntaf, felly dwi’n meddwl ein bod ni’n dipyn o arbrawf. Roedden nhw eisiau cael pethau’n iawn. Roedd yn enfawr, roedd yn stori enfawr ar y pryd

gyda phopeth yn digwydd yn Syria. Ac roedd pob awdurdod lleol eisiau gwneud pethau'n iawn'.

Soniodd sawl ysgol yn yr astudiaeth hon am bwysigrwydd cael cynorthwywyr addysgu dwyieithog. Gall y cynorthwywyr addysgu hyn gyfleu gwybodaeth bwysig i ysgolion sy'n ymwneud ag anghenion dysgwyr unigol ac efallai y gofynnir iddynt fynychu cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar y Cwricwlwm (PCP) gyda theuluoedd ffoaduriaid.

> 'Ond o ran cyfarfodydd PCP, dwi'n meddwl bod cael BTA sy'n gyfarwydd â'r teulu, yn gyfarwydd â'r plant, mae'n llai brawychus i'r teulu. Maen nhw'n cael eu hannog i ddweud eu dweud. Felly, yr hyn rydym yn ceisio ei gyfleu yn yr ysgol yw, os ydych chi'n trefnu cyfarfod PCP gyda rhiant EAL, rydych chi'n gwybod bod ganddyn nhw hawl i gael rhywun yno i ddehongli ar eu rhan a bod yr holl ddogfennau hynny'n cael eu cyfieithu hefyd. Ni allan nhw gymryd rhan lawn yn y broses fel arall. Felly mae hynny i raddau helaeth yn seiliedig ar ddull seiliedig ar hawliau'.

### 6.3.4 Defnyddio ieithoedd cartref a hyrwyddo dwyieithrwydd/tairieithrwydd yng Nghymru

Gall cynorthwywyr addysgu dwyieithog annog dysgwyr i ddefnyddio eu hiaith gartref yn y dosbarth i wneud synnwyr o gysyniadau a geirfa allweddol, sy'n arf effeithiol ar gyfer dysgu ieithoedd eraill yn yr ysgol: mae trawsieithu yn ddull grymusol a gall leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â bod heb Saesneg/siarad Cymraeg. Mae'n galluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn gwersi ac i rannu eu gwybodaeth a'u profiad blaenorol eu hunain.

> 'A'r iaith gyntaf hefyd, gan ei gwneud yn hysbys pa mor bwysig yw defnyddio eu hiaith gyntaf a chynnal eu hiaith gyntaf a rhyw fath o godi ei statws yn yr ysgol fel nad yw'n cael ei stigmateiddio mewn unrhyw ffordd, a phlant, mae plant Arabaidd eraill nad ydynt yn ffoaduriaid yn yr ysgol, felly gwnewch iddynt deimlo bod croeso iddynt ddefnyddio eu hiaith gyntaf yn eu gwaith – rhannu'r dudalen yn ei hanner a chyfieithu, ysgrifennu rhan ohono, llunio drafft cyntaf mewn Arabeg hyd yn oed'.

Mae cael llyfrau a deunyddiau mewn ieithoedd cartref ac annog pobl i ddilyn TGAU iaith gyntaf yn ffyrdd eraill o alluogi dysgwyr sy'n ffoaduriaid.

Mae Cymru'n wlad ddwyieithog, ac mae llawer o ysgolion ac athrawon yn gyfarwydd â methodolegau addysgu dwyieithog a phwysigrwydd hyrwyddo ieithoedd cartref dysgwyr. Mewn rhai ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Cymru, mae dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn dysgu Cymraeg cyn y Saesneg a gallant hyd yn oed ddod y siaradwyr Cymraeg gorau yn eu dosbarth. Mae'r ysgolion hyn yn annog dysgwyr ifanc sy'n ffoaduriaid i fod yn dairieithog, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn ogystal ag iaith eu cartref, fel sy'n ofynnol yn y sefyllfa.

> 'Roedd achos y bore yma, un o'r plant sydd gennym yn siarad pob gair â mi yn Gymraeg, yn siarad Saesneg gyda rhai o'i ffrindiau. Ond ffoniodd mam y bore yma, ac roedd hi'n siarad Arabeg dros y ffôn â mam gan fod angen ychydig o gefnogaeth arnon ni i drafod rhywbeth gyda mam. Ac roedd y plentyn sy'n ffoadur hynaf yr ysgol yn siarad yn rhugl ac yna'n dweud hyn a hyn wrthyf fi. Siarad yn ôl â mam mewn Arabeg. Ac fe benderfynodd mam, dweud hwyl a diolch a chario mlaen. Felly, maen nhw'n siarad tair iaith nawr heb... felly mae hynny'n neis iawn'.

Dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn aml yw'r prif lefarwyr ar ran eu teuluoedd, felly mae ganddynt y rôl ychwanegol o helpu eu teuluoedd i integreiddio a bod yn llwyddiannus yn y diwylliant

newydd. Soniodd y rhai a gyfwelwyd am y gwahanol batrymau o fywyd teuluol a'r disgwyliadau a roddir ar rai dysgwyr sy'n ffoaduriaid ifanc.

> 'Mae'n rhaid i'r plant ysgwyddo baich yr ysgol newydd, gan ysgwyddo baich yr hyn y mae eu rhieni'n mynd drwyddo.  Yn ddiwylliannol, mae plant yn ymwneud llawer mwy â bywyd teuluol o gefndir Syria nag y mae plant lleol efallai.  Dwi'n meddwl eu bod nhw'n gwneud llawer mwy. Ac mae'r plant hŷn yn gofalu am y plant iau, ac maen nhw wedi cael y cyfrifoldeb hwnnw ac mae disgwyl iddyn nhw wneud hynny. Felly, dwi'n meddwl bod y plant yn ysgwyddo hynny'.

**6.3.5 Cysylltiadau â rhieni/cefnogi a gwella sgiliau teuluoedd ffoaduriaid**
Soniodd nifer o'r cyfranogwyr am bwysigrwydd creu cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion a theuluoedd ffoaduriaid. Mae teuluoedd dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn aml yn brin o wybodaeth a rhwydweithiau cefnogi y tu allan i'r ysgol, felly prin yw eu dealltwriaeth o sut mae'r system addysg yn gweithio yn y DU, neu lwybrau gyrfa posibl i'w plant.

> 'Mae angen rhywun arnyn nhw i gyfathrebu â nhw, i esbonio am eu plant, beth maen nhw'n ei wneud yn yr ysgol neu arholiadau. Does neb yn gwybod beth sy'n digwydd, dydyn nhw ddim yn gwybod beth mae TGAU yn ei olygu, maen nhw'n gwybod bod eu mab neu'u merch ym mlwyddyn 11, bydd y flwyddyn nesaf yn y coleg, neu lle bynnag, does dim cynllun, mae'n broblem fawr, a does neb yn gallu dweud wrthyn nhw drwy'r amser, mae TGAU yn bwysig iawn, mae angen i'ch mab astudio, i wneud ei waith cartref, does neb ar gael i wneud hynny.

Mae ysgolion yn darparu gwybodaeth a mynediad at adnoddau, fel llyfrau, gwisgoedd, prydau ysgol am ddim, tripiau, a gweithgareddau allgyrsiol. Maent hefyd yn cyfeirio at wasanaethau a sefydliadau cymunedol eraill, gan gynnwys dosbarthiadau iaith a sgiliau. Mae'r rhain yn swyddogaethau pwysig o ran uwchsgilio rhieni dysgwyr sy'n ffoaduriaid a gwella eu cyfleoedd.

Efallai y bydd rhieni dysgwyr sy'n ffoaduriaid angen cyngor a hyfforddiant ar ddefnyddio TG, hawlio budd-daliadau, a chael gafael ar ffynonellau cymorth eraill. Gallai rhoi cyngor am faeth a phwysigrwydd ffyrdd iach o fyw hefyd fod yn bwysig yn dilyn y pandemig.

> 'Rhaid i mi ddweud bod rhai o'n disgyblion EAL a'n teuluoedd ffoaduriaid ar y lefel isaf yn ogystal â hynny.  Mae popeth yn y pecyn bwyd mewn pacedi, felly, wyddoch chi, mae'r maeth yn wael iawn – mae wedi dirywio yn gyflym iawn'.

Mae cefndir addysgol teuluoedd ffoaduriaid hefyd yn cael effaith fawr ar gynnydd ieithyddol a llythrennedd dysgwyr mewn ysgolion. Hyd yn oed pan ddarperir llyfrau i ddysgwyr fynd adref, nid yw rhai teuluoedd yn gallu cefnogi addysg eu plant.

> 'Y gwahaniaeth mawr i mi yw os ydyn nhw'n anllythrennog yn eu hiaith gartref, mae'n cael effaith ganlyniadol ar eu gallu i ddysgu Saesneg. Ond y plant hyn, dim ond yn yr ysgol y maen nhw'n cael eu Saesneg.  Pan maen nhw'n mynd adref, dim Saesneg. Ac rwy'n dechrau rhoi llyfrau iddyn nhw eu darllen, ond fyddan nhw ddim yn darllen. Pam nad ydych chi'n darllen?  Oherwydd does neb yn gallu darllen gyda nhw gartref. Nid yw Mam...mam na dad yn gallu darllen gartref. Ni fydd neb yn ymarfer gyda nhw. Felly, ni fyddant yn symud yn gyflymach.  Ni fyddant yn gwella fel y, wyddoch chi, y plant Prydeinig eraill ar yr ysgol.  Felly, bydd yn araf iawn'.

#### 6.3.6 Crynodeb o’r strategaethau a ddefnyddiwyd i gefnogi dysgwyr sy’n ffoaduriaid yng Nghymru

Cafodd llawer o’r strategaethau hyn yn yr ystafell ddosbarth a’r ysgol gyfan i gefnogi dysgwyr sy’n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru eu datblygu cyn cyfnod y pandemig, ond roedd iddynt fwy o arwyddocâd wrth gau ysgolion. Tynnwyd sylw at rôl bwysig cynorthwywyr addysgu dwyieithog, a gwella cysylltiadau cyfathrebu rhwng ysgolion a theuluoedd ffoaduriaid, fel elfennau allweddol o ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i ddysgwyr sy’n ffoaduriaid a’u teuluoedd yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd modd parhau â strategaethau fel darparu cymorth ychwanegol ar gyfer ESOL/EAL mewn ysgolion a chwricwla wedi’u teilwra drwy gydol y cyfnod clo, er na ddaeth pob dysgwr sy’n ffoadur i’r ysgol neu i’r gwersi. Roedd strategaethau ychwanegol hefyd a oedd wedi esblygu yn ystod y pandemig, fel gweithgareddau llesiant i fynd i’r afael ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, sy’n dal yn ddefnyddiol yn ystod y cyfnod adfer ar ôl y pandemig ac a allai fod yn ganlyniad parhaol i’r pandemig. Gall codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lles emosiynol a chefnogaeth fugeiliol fod yn ganlyniad parhaol i Covid-19, ac mae datblygu sgiliau digidol yn waddol arall.

# 7. Argymhellion

## 7.1 Argymhellion gan ysgolion ac athrawon

Mae’r argymhellion hyn wedi cael eu gwneud gan ysgolion ac athrawon sy’n gweithio’n agos gyda dysgwyr sy’n ffoaduriaid mewn ysgolion ledled Cymru ac maent yn seiliedig ar eu profiad hyd yma o’r hyn sy’n gweithio a’r hyn sydd angen ei wella. Mae ehangder yr argymhellion yn dangos yn glir bod angen gwneud mwy i wella gwasanaethau a chanlyniadau i ddysgwyr sy’n ffoaduriaid wrth iddynt gael eu hymgorffori mewn darpariaeth addysgol prif ffrwd.

- Gwell sgrinio ac adnabod anghenion ychwanegol, lle bo hynny’n berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth gefndir am addysg a gollwyd a llythrennedd teuluol, er mwyn helpu ysgolion ac athrawon i wneud addasiadau priodol ar gyfer diwallu anghenion dysgwyr.
- Hyfforddiant i staff ar yr heriau unigryw a chymhleth y gallai dysgwyr sy’n ffoaduriaid eu hwynebu a ffyrdd o adnabod arwyddion o drawma, i helpu staff i ddatblygu sgiliau ar gyfer delio â’r sefyllfaoedd hyn.
- Mwy o ymwybyddiaeth a gwella sgiliau staff a myfyrwyr mewn materion sy’n ymwneud â lloches, ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Mwy o gefnogaeth emosiynol a bugeiliol mewn ysgolion, gan gynnwys i siaradwyr ieithoedd eraill.
- Gwell mynediad at wasanaethau cyfieithu i sicrhau bod gwybodaeth a chyfathrebu pwysig ar gael mewn gwahanol ieithoedd yn y cartref, ac mewn fformatau sy’n hawdd eu cyrraedd. Bydd hyn yn osgoi’r angen i aelodau eraill o’r teulu neu ffrindiau gael eu cyflogi fel cyfieithwyr.
- Mwy o ddarpariaeth ddysgu Saesneg i ddysgwyr oed uwchradd ac amser i ddeall yr hanfodion cyn y disgwylir iddynt ymuno ag amserlenni prif ffrwd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i ganolbwyntio ar ennill sgiliau sylfaenol heb gael eu llethu gan ofynion nifer o bynciau academaidd.
- Cydlynu darpariaeth ESOL/EAL i gael amser penodol a chydnabyddiaeth.
- Cyflogi cynorthwywyr addysgu dwyieithog i helpu dysgwyr sy’n ffoaduriaid i ymgartrefu yn eu hamgylchedd newydd a defnyddio eu hieithoedd eu hunain i ddatblygu sgiliau ieithyddol ac academaidd newydd.

- Cymwysterau a chwricwla amgen wedi'u teilwra, sy'n caniatáu i ddysgwyr sy'n ffoaduriaid ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau iaith Saesneg, Mathemateg a dewis pynciau ychwanegol.
- Cymwysterau ESOL yn yr ysgol i lefel briodol i alluogi dysgwyr i astudio dewisiadau galwedigaethol yn ogystal â chael rhagor o Saesneg yn y coleg.
- Cysylltiadau agos â cholegau lleol a darparwyr profiad gwaith eraill. Nodau realistig sy'n caniatáu i ddysgwyr sy'n ffoaduriaid fod yn llwyddiannus.
- Cyfathrebu'n well â dysgwyr sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd i gefnogi dysgwyr i addasu i system addysg y DU a gwneud dewisiadau mwy gwybodus am ddewisiadau gyrfa yn y dyfodol.
- Monitro canlyniadau addysgol dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn barhaus er mwyn mesur pa mor dda y mae anghenion yn cael eu diwallu. Mae hon yn elfen allweddol o fesur llwyddiant y mecanweithiau cefnogi a'r ddarpariaeth, a dylai gael ei chyflawni gan uwch staff yr ysgol ac arbenigwyr ESOL/EAL sy'n gweithio'n agos gyda'r dysgwyr hyn ac sy'n aml yn y sefyllfa orau i ddarparu adroddiadau cynnydd.
- Hyfforddiant a mwy o ymwybyddiaeth ddiwylliannol i alluogi staff a dysgwyr eraill i ddod yn fwy cyfarwydd â materion byd-eang ac amrywiaeth.
- Cysylltiadau agosach rhwng ysgolion a swyddogion adsefydlu a mudiadau cymunedol eraill sy'n cynnig cefnogaeth a chyfleoedd i ail-sefydlu teuluoedd.

## 7.2 Cyfyngiadau

Dylid edrych ar y canfyddiadau uchod yng ngoleuni sawl cyfyngiad. Cynhaliwyd nifer gymharol fach o gyfweliadau mewn ysgolion ledled Cymru, fel nad yw'n bosibl gwneud cymariaethau manwl rhwng rhanbarthau, na rhwng mathau o ysgolion. O'r herwydd, nid yw'r cyfrif hwn yn honni ei fod yn gyffredinol nac yn cynrychioli'r profiad ehangach mewn ysgolion a gwasanaethau ledled Cymru.

Cafodd ymarferwyr o wyth sefydliad gwahanol eu cyfweld am effaith Covid ar eu dysgwyr o gefndir ffoaduriaid: roedd rhai o'r rhain o ysgolion cynradd a rhai o ysgolion uwchradd, rhai mewn ardaloedd trefol yng Nghymru, rhai mewn rhannau gwledig. Mae nifer o'r ymarferwyr hyn yn gweithio mewn rhanbarthau sydd â dwysedd uchel o ddysgwyr o gefndir ffoaduriaid ac maent wedi cael llawer mwy o brofiad o ymateb i anghenion y dysgwyr hyn; mae eraill mewn ysgolion sydd newydd ddechrau croesawu dysgwyr sy'n ffoaduriaid. Cafodd y safbwyntiau gwahanol hyn eu hadlewyrchu yn yr ymatebion. Roedd yr holl ymarferwyr hyn yn gyfrifol am addysgu a chefnogi rhai dysgwyr o gefndir ffoaduriaid yn ystod ac ar ôl y pandemig. Mae eu canfyddiadau cyfun yn datgelu rhai o'r pryderon a'r trafferthion y mae ysgolion ac athrawon unigol yn anochel yn eu hwynebu wrth geisio darparu addysg deg a chynhwysol i ddysgwyr sy'n ffoaduriaid, a llawer ohonynt wedi gwaethygu yn ystod y pandemig. Gall llais ymarferwyr ddarparu dilysrwydd wrth gyfleu pryderon ar y rheng flaen ym maes addysg ac wrth gynllunio ymlaen ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr. Mae eu hymatebion hefyd yn dangos strategaethau allweddol a ddefnyddiwyd i gefnogi dysgwyr o gefndir ffoaduriaid cyn, yn ystod, ac ar ôl Covid-19.

Er bod cyfweliadau wedi cael eu cynnal gan sawl aelod o'r tîm ymchwil, nid oedd yn bosibl, oherwydd pwysau amser ac anawsterau gyda rhannu data, i holl aelodau'r tîm fod yn rhan o'r broses dadansoddi data, er bod sawl aelod o'r tîm wedi gwirio'r dehongliad o'r data a'r adborth a ddarparwyd. Cafodd canfyddiadau ac argymhellion eu gwirio hefyd gan adolygwyr allanol.

Gan mai astudiaeth beilot yw hon yn bennaf, mae wedi canolbwyntio'n bennaf ar brofiadau staff sy'n gweithio gyda dysgwyr sy'n ffoaduriaid mewn ysgolion yn ystod y pandemig ac nid yw wedi ceisio casglu profiadau dysgwyr sy'n ffoaduriaid eu hunain na'u teuluoedd, ac mae angen ymchwil bellach i ddatblygu darlun llawnach. Y gobaith yw y bydd hyn yn bosibl gan y bydd llawer o'r dysgwyr hyn efallai yn parhau i deimlo effeithiau'r pandemig.

# Cyfeiriadau

Arnot, M. and Pinson, H. (2005). The education of asylum-seeker and refugee children: A study of LEA and school values, policies, and practices. Caergrawnt: Faculty of Education, University of Cambridge.

Arnot, M; Pinson, H.; and Candappa, M. (2009) Compassion, caring and justice: teachers' strategies to maintain moral integrity in the face of national hostility to the "non-citizen", Educational Review, 61:3, 249-264

Baak, M. (2016). Overcoming the 'Hidden Injuries' of Students from Refugee Backgrounds: The Importance of Caring Teacher–Student Relationships. Yn: Sullivan, A., Johnson, B., Lucas, B. (eds) Challenging Dominant Views on Student Behaviour at School. Springer, Singapore.

Biasutti, M., Concina, E., and Frate, S. (2020). Working in the classroom with migrant and refugee students: the practices and needs of Italian primary and middle school teachers. Pedagogy, Culture & Society, 28:1, 113-129.

Braun, V. and Clarke, V. (2006) Using thematic analysis in psychology, Qualitative Research in Psychology, 3:2, 77-101

Dryden-Peterson, S., Adelman, E., Bellino, M.J., and Chopra, V. (2019). The Purposes of Refugee Education: Policy and Practice of Including Refugees in National Education Systems. Sociology of Education, Vol. 92(4) 346-366.

Gateley, D.E. (2015). A policy of vulnerability or agency? Refugee young people's opportunities in accessing further and higher education in the UK. Compare: A journal of comparative and International Education, 45:1, 26-46.

Hutchison, J. and Treader, M. (2021). The educational outcomes of refugee and asylum-seeking children in England. Education Policy Institute. Ar gael yn: Link to Paper on EPI website

Lundberg, O. (2020). Defining and implementing social integration: a case study of school leaders' and practitioners' work with newly arrived im/migrant and refugee students. International Journal of Qualitative Studies on Health and Well-being. 15:sup2, 1783859.

Madziva, R. and Thondhlana, J. (2017) Provision of quality education in the context of Syrian refugee children in the UK: opportunities and challenges. Compare: A Journal of Comparative and International Education, 47:6, 942-961,

Mock-Muñoz de Luna, C., Granberg, A., Krasnik, A. and Vitus, K. (2020). Towards more equitable education: meeting health and wellbeing needs of newly arrived migrant and refugee children – perspectives from educators in Denmark and Sweden. International Journal of Qualitative Studies on Health and Well-being, 15:sup2, 1773207

Morrice, L.; Tip, L.K.; Brown, R. and Collyer, M. (2020). Resettled refugee youth and education: aspiration and reality. Journal of Youth Studies, 23: 3, 388-405.

Noddings, N. (1992). The challenge to care in schools: An alternative approach to education. New York: Teachers College Press

Oh, S.A. and Van der Stouwe, M. (2008). Education, diversity, and inclusion in Burmese refugee camps in Thailand. Comparative Education Review, 52(4), pp.589-617.

Primdahl, N.L., Borsch, A.S., Verelst, A., Jervelund, S.S., Derluyn, I. and Skovdal, M. (2021). It’s difficult to help when I am not sitting next to them: How Covid-19 school closures interrupted teachers’ care for newly arrived migrant and refugee learners in Denmark. Vulnerable Children and Youth Studies, 16:1, 75-85.

RoadstoRefuge. (2020). Supporting refugees. Ar gael yn:
Link to report on Roads to Refugee Website

Schellekens, P. (2019) Language issues, The ESOL Journal. Volume 30, Number 1, July 2019, pp. 4-7(4)

Sirin, S.R., and Rogers- Sirin, L. (2015). The Educational and Mental Health Needs of Syrian Refugee Children. Washington DC: Migration Policy Institute.

Skovdal, M., and Campbell, C. (2015). Beyond education: what role can schools play in the support and protection of children in extreme settings? International Journal of Educational Development, 41, 175-183.

Stevenson, J. and Willott, J. (2007). The aspiration and access to higher education of teenage refugees in the UK. Compare: A Journal of Comparative and International Education, 37:5, 671-687.

Taylor, S., and Sidhu, R.K. (2012). Supporting refugee students in schools: what constitutes inclusive education? International Journal of Inclusive Education, 16:1, 35-56.

Tikly, L. (2016). Language-in-education policy in low-income, postcolonial contexts: towards a social justice approach. Comparative Education, 52:3, 408-425,

Tzani-Pepelasi, C.; Ioannou, M.; Synnott, J.; and McDonnell, D. (2019). Peer Support at Schools: The Buddy Approach as a Prevention and Intervention Strategy for School Bullying. Ar gael yn: https://link.springer.com/article/10.1007/s42380-019-00011-z

Llywodraeth Cymru. (2019). Nation of Sanctuary: Refugee and Asylum Seeker Plan. Ar gael yn:https://gov.wales/refugee-and-asylum-seeker-plan-nation-sanctuary-progress-report-2020

Llywodraeth Cymru (2021). Curriculum and Assessment (Wales) Act.
Available at: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/4/enacted

Llywodraeth Cymru (2021). Pupil Level Annual School Census: available at:
Link to data on Stats Wales Website

Llywodraeth Cymru (2022) Wellbeing of Wales. Ar gael yn:
https://gov.wales/wellbeing-wales-2022

Werner, K., and Woessmann, L. (2021). The Legacy of COVID-19 in Education, IZA Discussion Papers, No. 14796, Institute of Labor Economics (IZA), Bonn

# Atodiad A – Cwestiynau cyfweliad i athrawon/addysgwyr

| |
|---|
| Oeddech chi (neu eich athrawon) yn dysgu plant sy'n ffoaduriaid cyn Covid-19?<br>Faint o fyfyrwyr sy'n ffoaduriaid ydych chi wedi bod yn eu dysgu? |
| Pa wybodaeth/hyfforddiant gawsoch chi, os o gwbl, i'ch paratoi ar gyfer addysgu plant sy'n ffoaduriaid? |
| Pa gefnogaeth a gawsoch gan asiantaethau allanol e.e. arbenigwyr iaith, mudiadau ffoaduriaid, hyfforddiant/gwybodaeth gan y llywodraeth?<br>Pa gefnogaeth arall fyddai'n ddefnyddiol yn eich barn chi? Gan athrawon eraill? Athrawon mwy profiadol? |
| STRATEGAETHAU YSTAFELL DDOSBARTH<br>Allwch chi rannu unrhyw strategaethau/adnoddau/technegau rydych chi wedi'u defnyddio i gefnogi dysgwyr sy'n ffoaduriaid yn yr ystafell ddosbarth?<br><br>Awgrymiadau ychwanegol: I'w ddefnyddio yn ôl disgresiwn yr ymchwilwyr.<br><br>Pa strategaethau ydych chi wedi'u defnyddio i gefnogi plant/pobl ifanc sy'n ffoaduriaid?<br>Strategaethau i greu amgylchedd croesawgar?<br>Strategaethau i gefnogi dysgu iaith yn Gymraeg/Saesneg, yn ddwyieithog?<br>Ydy plant sy'n ffoaduriaid yn cael cynnig gwersi Cymraeg/Saesneg ychwanegol?<br>A oes cefnogaeth iaith yn eu mamiaith?<br>Faint o gymorth ychwanegol allwch chi ei roi yn ystod gwersi?<br>Ydych chi wedi cael unrhyw hyfforddiant ar ddefnyddio'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol?<br>Pa adnoddau ydych chi wedi'u cael i'ch helpu i ddysgu Cymraeg neu Saesneg i blant?<br>Pa strategaethau a ddefnyddir i helpu plant sy'n ffoaduriaid i ddal i fyny ag addysg fylchog?<br>Pa mor hawdd yw canfod anghenion dysgu ychwanegol plant sy'n ffoaduriaid? |
| STRATEGAETHAU INTEGREIDDIO<br>A allwch rannu unrhyw strategaethau a ddefnyddir i gefnogi integreiddio plant sy'n ffoaduriaid i'r ysgol/gymuned ehangach?<br><br>Awgrymiadau ychwanegol: i'w defnyddio gyda disgresiwn yr ymchwilwyr<br><br>Pa sgiliau, yn eich barn chi, sydd gan blant sy'n ffoaduriaid a allai effeithio ar eu hintegreiddio?<br>I ba raddau ydych chi'n meddwl bod hyn yn effeithio ar eu hintegreiddio?<br>Pa gefnogaeth ydych chi'n ei darparu i helpu gyda hyn?<br>Strategaethau i gyfathrebu â theuluoedd neu eu cynnwys?<br>Pa systemau sydd ar waith ar gyfer cynnwys rhieni?<br>Adrodd ar gynnydd plant – sut mae adroddiadau cynnydd yn cael eu cyflwyno?<br>Pa ddulliau a ddefnyddir i helpu rhieni i gefnogi dysgu plant?<br>Sut mae rhieni'n cael gwybod am waith cartref?<br>Sut mae rhieni o gefndiroedd gwahanol yn teimlo bod croeso iddyn nhw? |
| YN YSTOD Y PANDEMIG<br>A lwyddoch chi i barhau â'r strategaethau hyn yn ystod y pandemig?<br>A gafodd y plant sy'n ffoaduriaid gyfle i fynd i wersi yn ystod Covid-19?<br>Pa fathau o gymorth a gynigiwyd yn ystod Covid-19?<br><br>O ran technoleg?<br>Gwersi – taflenni gwaith – gwaith cartref?<br>Gwasanaethau cyfieithu / cefnogaeth ychwanegol? |

A oedd systemau a oedd yn caniatáu i'r plant hyn gadw mewn cysylltiad ag athrawon/tiwtoriaid arbenigol – tiwtorialau/cyfarfodydd?
Sut cafodd y plant hyn adborth ar eu gwaith?

Beth oedd yr heriau mwyaf i chi (a'r ysgol) o ran addysgu/cefnogi plant sy'n ffoaduriaid yn ystod y pandemig?

Pa mor anodd oedd hi i athrawon gadw mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid?
A oedd y teuluoedd ffoaduriaid yn gallu defnyddio pyrth ar-lein?
Pa fath o dechnoleg oedd ei hangen?
A oedd rhwystrau iaith? Oeddech chi'n defnyddio cyfieithu ar y pryd?
Sut wnaeth yr ysgol gynnal perthynas ar-lein gyda phlant sy'n ffoaduriaid?
Beth am gyswllt myfyriwr-i-fyfyriwr?

YN YSTOD Y CYFNOD ADFER AR ÔL Y PANDEMIG
Oeddech chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau pan ddaeth y plant hyn yn ôl i'r ysgol ar ôl i gyfyngiadau Covid ddod i ben?
O ran datblygiad iaith?
O ran hyder/sgiliau cymdeithasol/ datblygu cyfeillgarwch?
O ran cynnydd addysgol?
Ydych chi wedi gweld unrhyw fanteision o'r cyfyngiadau symud i blant sy'n ffoaduriaid yn eich dosbarth/ysgol?
(Gallai hyn fod yn ymwneud â dysgu neu'r manteision ehangach)

Ydych chi wedi gweld unrhyw effeithiau negyddol o'r cyfyngiadau symud i blant sy'n ffoaduriaid yn eich dosbarth/ysgol? (Gallai hyn fod yn ymwneud â dysgu neu'r risgiau ehangach)

Pa strategaethau/adnoddau eraill ydych chi wedi gallu eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid ers i'r cyfyngiadau symud ddod i ben?

SYMUD YMLAEN
Pa wersi y mae'r ysgol wedi'u dysgu am gefnogi plant sy'n ffoaduriaid?
Pe bai'r cyfyngiadau symud yn digwydd eto, beth ydych chi'n meddwl y dylid ei wneud yn wahanol? Pam?
Pa ddatblygiad proffesiynol, hyfforddiant neu gefnogaeth ydych chi'n meddwl y gallai fod eu hangen arnoch i gefnogi eich gwaith gyda'r grwpiau hyn o ddysgwyr?
Pwy fyddai'n gallu darparu'r hyfforddiant neu'r gefnogaeth hon orau?

# Atodiad B – Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr

## Cyflwyniad

Rydych chi'n cael eich gwahodd i gymryd rhan mewn prosiect sy'n ymchwilio i effaith y pandemig ar brofiadau addysgol plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru. Mae ysgolion/athrawon/cynorthwywyr addysgu sydd wedi bod yn ymwneud ag addysgu a chefnogi plant sy'n ffoaduriaid mewn sefyllfa allweddol i roi cipolwg pwysig ar effeithiau'r pandemig ar y grwpiau agored i niwed hyn o ddysgwyr a gwneud argymhellion ar gyfer ffyrdd o wella eu rhagolygon addysgol. Y gobaith yw y gall yr ymchwil hwn helpu llunwyr polisi ac addysgwyr eraill i wneud gwelliannau pellach i'r ffyrdd y mae plant sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi yn eu haddysg.
Cyn i chi benderfynu a ydych am gymryd rhan ai peidio, mae'n bwysig eich bod yn deall y rhesymeg dros y prosiect hwn a beth fydd yn ei olygu. Cymerwch eich amser i ddarllen y wybodaeth ganlynol a chysylltwch â'r ymchwilydd i gael unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen.

## Beth yw pwrpas yr astudiaeth?

Mae'r astudiaeth yn ceisio:
Casglu a dadansoddi profiadau sampl bach o addysgwyr (arweinwyr ysgolion, athrawon a chynorthwywyr addysgu) sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru yn ystod pandemig Covid-19.
Cael gwell dealltwriaeth o'r hyfforddiant, yr adnoddau a'r asiantaethau allanol sydd eu hangen mewn ysgolion yng Nghymru i gefnogi lles plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid yn ystod y pandemig ac ar ei ôl.
Datblygu strategaethau dosbarth/ysgol gyfan i gefnogi addysgu a dysgu plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru.
Rhannu'r dystiolaeth hon gyda Llywodraeth Cymru, arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cefnogi gyda'r nod o adeiladu ar bolisi a gwella arferion mewn ysgolion.

## Pam y cysylltwyd â mi?

Y rheswm y cysylltwyd â chi yw eich bod chi a'ch ysgol wedi cael profiad o addysgu a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid, yn ystod y pandemig a'r cyfnod adfer. Mae gan y tîm ymchwil ddiddordeb yn y strategaethau a'r mecanweithiau cefnogi yr ydych wedi'u defnyddio i gefnogi'r grwpiau hyn o fyfyrwyr. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant, adnoddau a chydweithio ag asiantaethau allanol.

Yr ydym hefyd yn awyddus i ddysgu am ffyrdd y gellir darparu rhagor o gefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru, fel y gellir gwneud argymhellion i lunwyr polisi ac asiantaethau allanol ynghylch camau gweithredu a gwelliannau yn y dyfodol.

## Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Chi sydd i benderfynu a ydych chi am gymryd rhan neu beidio. Os byddwch yn dweud wrthym nad ydych yn dymuno cymryd rhan, ni fyddwn yn cysylltu â chi eto. Os ydych chi'n penderfynu y byddech chi'n hoffi cymryd rhan, dylech lenwi'r ffurflen ganiatâd sydd ynghlwm a'i dychwelyd mewn e-bost. Mae hyn yn cadarnhau eich bod wedi cael rhywfaint o wybodaeth gefndir am y prosiect a'ch bod yn fodlon i ni gysylltu â chi eto i drefnu cyfweliad cyfrinachol ar-lein gydag aelod o'r tîm ymchwil, ar amser ac mewn man sy'n gyfleus i chi. Telir costau athrawon llanw.

## Beth fydd yn digwydd os byddaf yn penderfynu cymryd rhan?

Pwrpas y cyfweliad yw clywed am eich profiadau fel aelod o staff sy’n gyfrifol am addysgu a dysgu plant a phobl ifanc sy’n ffoaduriaid yn ystod y pandemig a’r cyfnod adfer. Byddwn yn gofyn i chi am y ffyrdd rydych chi wedi addasu eich addysgeg i ddarparu ar gyfer y dysgwyr hyn yn ystod y pandemig. Hefyd, gofynnir i chi am eich profiad o unrhyw gefnogaeth neu hyfforddiant sydd wedi cael ei ddarparu ac ystyriaethau ar gyfer cymorth pellach a fyddai’n ddefnyddiol i chi.

Bydd y cyfweliad yn cymryd hyd at 90 munud a gellir ei recordio, gyda’ch caniatâd chi, neu fel arall, bydd yr ymchwilydd yn cymryd nodiadau ysgrifenedig. Bydd amser ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfweliad i ofyn cwestiynau a thrafod unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi.

## A fydd fy nghyfraniad at yr astudiaeth yn cael ei gadw’n gyfrinachol?

Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu storio mewn cronfa ddata gyfrinachol a bydd yr wybodaeth rydych chi’n ei rhannu yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Ni fydd eich enw nac unrhyw fanylion adnabod eraill yn cael eu defnyddio mewn unrhyw adroddiadau na chyhoeddiadau. Does dim angen i chi gael eich camera ymlaen yn ystod y recordiad. Bydd recordiadau’n cael eu trawsgrifio cyn gynted â phosibl, ac ar ôl hynny bydd ffeiliau digidol yn cael eu dileu.

Bydd trawsgrifiadau’n cael eu storio mewn ffeiliau sydd wedi’u diogelu â chyfrinair ar gyfrifiadur sy’n benodol i’r diben hwn. Bydd codau’n cael eu neilltuo i bob trawsgrifiad yn lle enwau ac ni fydd enwau’n cael eu storio ochr yn ochr â chodau. Bydd yr holl fanylion adnabod mewn trawsgrifiadau (e.e. enwau ysgolion, adrannau, athrawon eraill, enwau myfyrwyr ac ati) yn cael eu dileu a’u disodli gan ffugenwau neu godau.

Bydd nodiadau a wneir yn ystod cyfweliadau ac yn y cam dadansoddi data yn cael eu storio’n ddiogel mewn cwpwrdd ffeilio wedi’i gloi ac mewn ffeiliau sydd wedi’u diogelu â chyfrinair. Bydd aelodau eraill o’r tîm ymchwil yn gwirio’r dogfennau terfynol er mwyn sicrhau nad oes modd adnabod unigolion ac ysgolion mewn unrhyw ffordd.

## Beth fydd yn digwydd os nad ydw i eisiau parhau â’r astudiaeth?

Mae croeso i chi dynnu’n ôl o’r astudiaeth ar unrhyw adeg heb roi rheswm. Os byddwch yn penderfynu tynnu’n ôl, ni fyddwn yn cysylltu â chi eto. Gellir tynnu eich data o’r astudiaeth tan ddiwedd mis Mawrth pan fydd y data wedi’i goladu a’i gofnodi mewn adroddiad terfynol. Ni fydd yn bosibl tynnu eich data yn ôl ar ôl y cyfnod hwn.

## Sut bydd canlyniadau’r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio?

Bydd canfyddiadau’r astudiaeth hon yn cael eu rhannu â llywodraeth Cymru, arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cefnogi gyda’r nod o adeiladu ar bolisi a gwella ymarfer mewn ysgolion mewn perthynas ag addysgu plant a phobl ifanc sy’n ffoaduriaid.
Bydd dysgu mwy am strategaethau, adnoddau a mecanweithiau cefnogi y mae ysgolion yn eu defnyddio ar hyn o bryd, a pha adnoddau pellach sydd eu hangen, yn helpu i lywio datblygiad parhaus strategaethau dosbarth/ysgol gyfan i gefnogi addysgu a dysgu plant a phobl ifanc sy’n ffoaduriaid mewn ysgolion yng Nghymru.
Gellir defnyddio’r wybodaeth hon fel sail ar gyfer darparu digwyddiadau hyfforddi a seminarau i addysgwyr sydd ar flaen y gad o ran diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy’n ffoaduriaid yng Nghymru, yn ogystal â datblygu gwasanaethau cefnogi ac adnoddau iaith sydd ar gael i’r myfyrwyr hyn.

## Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r ymchwil?

Mae'r astudiaeth yn cael ei threfnu gan y tîm ymchwil ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd. I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar y prosiect hwn, cysylltwch â'r tîm ymchwil gan ddefnyddio'r manylion isod.
Y camau nesaf: Os ydych chi'n penderfynu y byddech chi'n hoffi cymryd rhan, llenwch y ffurflen ganiatâd sydd ynghlwm, a'i dychwelyd ar e-bost.
Diolch i chi am roi o'ch amser i ddarllen y wybodaeth hon.

## Manylion cyswllt

Dr. Fliss Kyffin: Cyfarwyddwr y Cwrs: MA mewn Astudiaethau Addysg. Ysgol Gwyddorau Addysgol, Bangor F.kyffin@bangor.ac.uk
Dr. Sonya Woodward: Darlithydd, MA mewn Astudiaethau Addysg. Ysgol Gwyddorau Addysgol, Bangor S.woodward@bangor.ac.uk
Dr Sarah Olive: Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Moeseg. Ysgol Gwyddorau Addysgol, Bangor S.olive@bangor.ac.uk
Ysgol Gwyddorau Addysgol, Prifysgol Bangor

# Atodiad C – Ffurflen Ganiatâd Cyfranogwr

Ticiwch yr atebion DO/YDW neu NADDO/NAC YDW sy'n berthnasol i'r datganiadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Rwyf wedi derbyn taflen wybodaeth yn rhoi manylion yr astudiaeth hon ac wedi cael cyfle i drafod fy nghyfranogiad a gofyn cwestiynau. | DO | NADDO |
| Rwyf wedi cael amser i ystyried a ddylwn gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. | DO | NADDO |
| Rwy'n ymwybodol fy mod yn rhydd i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb roi rheswm, ond os yw hyn ar ôl diwedd mis Mawrth 2022, rwy'n deall y gallai fy nata gael ei ddefnyddio ar ffurf wedi'i choladu o hyd, ond ni fydd modd fy adnabod fel unigolyn ynddo. | YDW | NAC YDW |
| Rwy'n hyderus y bydd yr holl ddata a gesglir a gwybodaeth bersonol yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac mewn lle diogel. Ni fydd canlyniadau'r ymchwil yn cynnwys unrhyw enwau na nodweddion adnabod eraill. | YDW | NAC YDW |
| Rwy'n fodlon cymryd rhan mewn cyfweliad cyfrinachol ar-lein ar adeg ac mewn lle sy'n hwylus i bawb. | YDW | NAC YDW |
| Rwy'n cytuno y gellir recordio'r cyfweliad ar dâp ac y gallaf ofyn i'r recordiad gael ei stopio ar unrhyw adeg. | YDW | NAC YDW |
| Rwy'n deall y gallaf ddewis troi'r camera fideo ymlaen neu beidio yn ystod y broses gyfweld. | YDW | NAC YDW |
| Rwy'n deall fy mod yn gallu rhoi cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag yr ydw i'n hapus i'w rhoi. | YDW | NAC YDW |
| Ni fydd y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion ar wahân i'r rheini a nodir a bydd yn cael ei ddinistrio ar ôl 3 blynedd. Caiff recordiadau o gyfweliadau eu dinistrio ar ôl i'r trawsgrifiadau gael eu gwneud. | YDW | NAC YDW |
| Rwy'n rhoi caniatâd i ganfyddiadau ymchwil gael eu cyhoeddi mewn adroddiadau, cynadleddau a seminarau ymchwil. | YDW | NAC YDW |
| Rwy'n cydsynio i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. | YDW | NAC YDW |

Llofnod y cyfranogwr.................................. Dyddiad...........................